



Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch

**Adroddiad Blynyddol
a Datganiadau Ariannol
2020-21**

Cynnwys

Rhagair gan Vicki Stott, Prif Weithredwr QAA (2021-)	1
Rhagair gan Douglas Blackstock, Prif Weithredwr QAA (2015-21)	1
Rhagair gan yr Athro Simon Gaskell, Cadeirydd Bwrdd QAA	3
Adroddiad Strategol	4
Pwrpas QAA	4
Yr hyn rydym yn ei wneud.....	6
Gwaith rheoleiddio QAA.....	6
Cynorthwyo â gwella ansawdd ymhlith Aelodau QAA	10
Gwersi a ddysgwyd.....	13
Edrych tua'r dyfodol	14
Adolygiad ariannol	16
Canlyniadau	16
Incwm.....	16
Gwariant.....	16
Y Fantolen.....	17
Polisi Arian Wrth Gefn.....	17
Rheolaeth ariannol.....	18
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	20
Strwythur, llywodraethiant a rheolaeth.....	20
Manylion atgyfeirio a gweinyddol	29
Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r cyfarwyddwyr	30
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau ac Ymddiriedolwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch	32
Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol (gan gynnwys cyfrif incwm a gwariant cyfunol) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 ^{ain} Gorffennaf 2021	36
Mantolenni cyfrifon ar 31 ^{ain} Gorffennaf 2021	37
Datganiad llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021.....	38
Nodiadau ar gyfer y datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021	39
Geirfa	65

Rhagair gan Vicki Stott, Prif Weithredwr QAA (2021-)

Fel Prif Weithredwr newydd QAA, rwy'n falch iawn o gael cyfle i arwain sefydliad mor uchel ei barch y mae ei waith yn mynd at galon sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cyrchu addysg o ansawdd uchel. Gwn fod llawer o heriau o'n blaenau, ond rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i ateb yr heriau hynny, gyda goruchwyliaeth a chefnogaeth adeiladol a chraff gan ein Bwrdd.

Gyda'n gilydd gallwn adeiladu ar enw da QAA fel elusen annibynnol sy'n gweithio ar draws holl wledydd y DU er budd myfyrwyr, i ddiogelu safonau a sicrhau ansawdd addysg uwch. Rydym yn ffodus ein bod yn adeiladu ar y sylfeini cryf a osodwyd gan fy rhagflaenydd Douglas Blackstock; rwyf wedi cael y pleser o weithio gydag ef ers ymuno â'r asiantaeth yn 2019. Yn yr ysbryd hwn, nid yw ond yn addas fy mod yn trosglwyddo i Douglas i adlewyrchu ar flwyddyn hynod lwyddiannus i QAA.

Rhagair gan Douglas Blackstock, Prif Weithredwr QAA (2015-21)

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn ymdrin â blwyddyn ariannol na welwyd ei thebyg o'r blaen yn hanes 24 mlynedd QAA. Wrth i addysg uwch y DU barhau i ymdopi ag effaith ddwys pandemig COVID-19, felly hefyd y gwnaeth QAA. Roeddem wedi cau ein swyddfeydd ledled y DU ac wedi symud i weithio gartref yng ngwanwyn 2020; ni allem fod wedi rhagweld mai hwn fyddai ein model gweithredu am bron yr holl gyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. Yn wir, hyd yn oed wrth i rai cydweithwyr ddychwelyd i'n swyddfeydd, rydym bellach yn gweithredu o dan ddiwylliant gwaith hyblyg newydd sy'n annog ein staff i ffynnu. Yn yr amgylchedd hwn, rydym wedi ailffocysu ein rhaglen waith lawn i ddiwallu anghenion y sector, a dechreuwyd cynllunio llwybr ymlaen i'r asiantaeth a'r sector. Rwy'n hynod falch o ymateb cydweithwyr wrth fynd i'r afael â'r her hon. Wrth ymateb i'r heriau hyn, cawsom ein tywys gan ein gwerthoedd fel elusen annibynnol a'n pwrpas, sef diogelu safonau a sicrhau ansawdd ac enw da byd-eang addysg uwch y DU. Y pwrpas hwn sydd wedi caniatáu i ni gyflawni dros ein haelodau mewn cyd-destun anghyffredin.

Rydym wedi croesawu dros 20 aelod newydd - tyfodd niferoedd aelodaeth yn 2019-20 ac maent wedi cynyddu eto ar gyfer 2021-22. Heddiw, mae gennym ni 279 o aelodau - ni yw'r asiantaeth o ddewis ar gyfer ansawdd a safonau addysg uwch y DU. Yn ystod 2021 lansiodd QAA brosiectau newydd arloesol i gynorthwyo'r sector, o'n Prosiectau Gwella Cydweithredol ar gyfer yr aelodaeth i'n dull newydd ar gyfer Gwerthuso Ansawdd a Gwella Darpariaeth Addysg Uwch Drawswladol y DU (QE-TNE). Rydym wedi parhau i gefnogi diwygiadau sylweddol yn y sector trydyddol yn yr Alban a Chymru, gyda gwelliant wrth wraidd cydweithredu ar draws sefydliadau, asiantaethau a llywodraethau. Yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi dechrau datblygu model wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer adolygu ar sail gwelliant. Yn Lloegr, rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau fel corff ansawdd dynodedig, yn ogystal â darparu adnoddau newydd ar gyfer y sector, fel *Quality Compass* a'r Fframwaith Credyd Addysg Uwch diwygiedig ar gyfer Lloegr. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos ac yn gydweithredol gyda phedair llywodraeth y DU, darparwyr addysg uwch, cyllidwyr, cyrff proffesiynol a rheoleiddio, a mudiadau myfyrwyr i ddatblygu dulliau o ymwneud ag ansawdd a safonau sy'n cael eu gyrru gan y sector.

Rydym wedi dyfnhau partneriaethau yn rhyngwladol, gan gynnwys trwy gytundebau newydd yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Malaysia a Thiwnisia; gwaith adeiladu capasiti newydd yng Ngorllewin Affrica - mewn cydweithrediad â Banc y Byd a Chymdeithas Prifysgolion Affrica; cynnal Cynhadledd INQAAHE ym mis Mehefin; a sicrhau rolau allweddol o fewn ENQA - y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Sicrwydd Ansawdd mewn Addysg Uwch. Mae ein hymgysylltiad rhyngwladol yn caniatáu i ni rannu arfer yn fyd-eang a gwella enw da addysg uwch y DU.

Mae hyn wedi bod yn bosibl oherwydd ein model gweithredu hyblyg, effeithiol a ddatblygwyd ers 2018 - wedi'i gyfarwyddo gan ein Bwrdd, ei ddarparu gan ein staff a'n hadolygwyr arbenigol, a'i yrru gan ein haelodau. Cymerais yr awenau fel Prif Weithredwr mewn cyfnod o ansicrwydd mawr. Credaf, wrth i QAA symud ymlaen gyda thîm gweithredol newydd, ei fod yn gwneud hynny gyda diwylliant wedi'i adnewyddu a'i gryfhau, prosesau mewnol cryf a dylanwad allanol, yn ogystal ag ymdeimlad clir o bwrpas.

Gan fod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn ymdrin â fy mlwyddyn olaf fel Prif Weithredwr QAA, byddaf yn cloi gyda nodyn syml o ddiolch. Mae QAA yn sefydliad bach, ond uchel ei barch yn genedlaethol ac yn fyd-eang, trwy ein gwaith ar ran addysg uwch y DU. Mae ymddiriedaeth a hyder mewn ansawdd a sicrhau ansawdd yn hanfodol ar gyfer llwyddiant ein sector. Bob dydd yr wyf wedi gweithio yn QAA, mae ymroddiad y bobl sy'n gweithio ym maes ansawdd - o fewn ein hasiantaeth ac mewn sefydliadau ledled addysg uwch y DU, wedi creu cyn argraff arnaf. P'un a ydynt yn staff QAA, adolygwyr, aelodau bwrdd a phwyllgorau, neu'n gefnogwyr mewn sefydliadau, rydym yn dibynnu ar eu hymdrech unigol a chyfunol. Mae ein llwyddiannau yn dyst i'w gwaith caled a'u ffocws diwyro ar sicrhau bod myfyrwyr yn cael yr addysg uwch y mae ganddyn nhw hawl i'w disgwyl.

Rhagair gan yr Athro Simon Gaskell, Cadeirydd Bwrdd QAA

Ers bron i 25 mlynedd, mae QAA wedi bod yn gweithio fel elusen annibynnol i ddiogelu safonau a gwella ansawdd addysg uwch y DU ble bynnag y'i darperir ledled y byd. Heddiw, efallai yn fwy nag erioed o'r blaen, mae sicrhau safonau a chefnogi gwella ansawdd yn bwysig iawn.

Yn 2020, wrth i bandemig COVID-19 ddechrau mynnu ac ysgogi newid cyflym, cynhaliais gyfres o sgursiau ag arweinydd addysg uwch y DU am ei effeithiau parhaol posibl. Roedd y trafodaethau yn ddadlennol; roedd enghreifftiau o gyflymder ymateb sefydliadau, cydnabyddiaeth o dueddiadau cyflym a sylweddol (gan gynnwys datblygu modelau newydd ar gyfer addysg uwch), a hyd yn oed cwestiynau am bwrpas sylfaenol addysg uwch.

Fodd bynnag, un o'r canfyddiadau cliraf oedd parodrwydd sefydliadau i rannu arfer er budd gweddill y sector. Roedd sawl arweinydd yn rhagweld sector mwy cydweithredol ar y gorwel. Dyma ble credaf y gall ein hasiantaeth ychwanegu'r gwerth mwyaf. Y rôl sylfaenol sydd wrth wraidd pwrpas QAA yw cydweithredu; gyda hyder y sector, rydym yn dod â chyrrff, systemau rheoleiddio a rhanddeiliaid gwahanol ynghyd i gyflawni'r nod a rennir o safonau academiaidd diogel o ansawdd uchel. Rydym yn elusen annibynnol y gellir ymddiried ynddi sy'n tywys, yn cynnull, yn cynghori ac yn cydweithredu, â'r nod o gefnogi myfyrwyr i lwyddo.

Hoffwn achub ar y cyfle i gydnabod cyfraniad rhagorol Prif Weithredwr blaenorol QAA, Douglas Blackstock dros yr 20 mlynedd y mae wedi'u treulio'n gweithio i'r Asiantaeth. Wrth i QAA symud ymlaen gyda Phrif Weithredwr newydd, Vicki Stott a Dirprwy Brif Weithredwr, Alastair Delaney, mae'n gwneud hynny gyda sylfeini cryf wedi'u gwreiddio yn ymrwymiad cyffredin y sector i ansawdd a safonau. Mae'n llais hyderus y gellir ymddiried ynddo'n rhyngwladol ar gyfer ansawdd, gan ddarparu gwasanaethau diduedd i gyrff rheoleiddio, ochr yn ochr ag arweinyddiaeth reddfal a gweithgareddau gwelliant deinamig sy'n canolbwyntio ar aelodau. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi helpu QAA i lwyddo yn ystod 2020-21, ac wedi helpu ein sector i wella ansawdd a chynnal safonau diogel.

Yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, bydd QAA yn parhau i ymateb i effaith COVID-19, ac i ofynion newid rheoliadol. Mae'r newidiadau sylweddol hyn ynghlwm â phwysigrwydd parhaus materion fel uniondeb academiaidd, mynediad i addysg, hinsawdd ymddiriedaeth allanol, a llawer o bethau eraill. Mae pob un yn cyflwyno heriau amlochrog i addysg uwch y DU, ond credaf y gall QAA gyflawni eu blaenoriaethau strategol ac archwilio cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu. Mae'n gallu gwneud hynny oherwydd yr hyder a roddir yn yr Asiantaeth gan gyrff rheoleiddio a gan y sector; ac, yn ei dro, mae wedi ymrwymo i barhau â chyfiawnhau'r hyder hwnnw.

Adroddiad Strategol

QAA yw'r unig gorff addysg uwch sydd â chylch gwaith yn gweithredu mewn systemau rheoleiddio ledled y DU gyfan. Mae gan bob gwlad system sicrwydd unigryw ac ar wahân, felly mae QAA yn gweithio gyda rheoleiddwyr, asiantaethau cyllido, sefydliadau addysg uwch, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill ledled y DU i ddarparu dulliau wedi'u teilwra'n benodol ar eu cyfer.

Pwrpas QAA

Pwrpas QAA yw diogelu safonau academiaidd, ynghyd â sicrhau ansawdd ac enw da byd-eang addysg uwch y DU. Rydym yn gwneud hyn trwy weithio gyda darparwyr addysg uwch, cyrff rheoleiddio a chyrff myfyrwyr, gyda'r amcan cyffredin o gynorthwyo myfyrwyr i lwyddo.

O ystyried ein pwrpas a'r cyd-destun newidiol y mae'r sefydliad yn gweithio ynddo, bydd y blaenoriaethau strategol canlynol yn arwain QAA tan 2025:

1 Mae QAA yn cael ei ystyried fel y corff annibynnol arbenigol dibynadwy sy'n cynorthwyo gwelliant a rheoleiddio addysg uwch ar draws gwledydd y DU

Byddwn yn cyflawni hyn trwy ddarparu asesiadau annibynnol o safonau ac ansawdd o fewn fframweithiau sicrwydd, gwelliant a rheoleiddio perthnasol holl wledydd y DU. Bydd ein hasesiadau, a'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu a'i rannu ohonyn nhw'n:

- darparu rheoleiddio ar sail egwyddorion trwy ein cyfrifoldebau fel y Corff Ansawdd Dynodedig yn Lloegr
- arloesi trwy bartneriaeth, gan fynd y tu hwnt i sicrwydd, trwy'r Fframwaith Gwella Ansawdd yn yr Alban
- gwreiddio'r agenda gwella ansawdd ar gyfer Cymru
- cynorthwyo'r llywodraeth a'r sector yng Ngogledd Iwerddon gyda dulliau gweithredu yn y dyfodol.

2 Mae QAA yn darparu cyngor arbenigol sy'n sicrhau safonau ac yn cynorthwyo gwella ansawdd

Byddwn yn cefnogi ac yn herio'r sefydliadau hynny sy'n aelodau i wella ansawdd darpariaeth addysg uwch y DU, er mwyn rhoi'r profiad gorau posibl i fyfyrwyr. Cyflawnir hyn trwy'r canlynol:

- cadw Côd Ansawdd Addysg Uwch y DU yn berthnasol a darparu arweinyddiaeth reddfodol ar safonau ac ansawdd i gynorthwyo ein haelodau i ymateb i heriau cyfoes
- datblygu a darparu partneriaethau gwella, gan rannu'r hyn a ddysgwyd o bob gwlad ledled y DU ac yn rhyngwladol
- gweithgareddau gwella perthnasol a deinamig ar gyfer pob gwlad, ledled y DU ac yn seiliedig ar arfer a chyfranogiad rhyngwladol
- cefnogi partneriaeth myfyrwyr effeithiol mewn sicrhau ansawdd
- darparu cyngor i lywodraethau ledled y DU
- ffurfio partneriaethau effeithiol gyda Chyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio'r DU a chyflogwyr i roi cymorth i'n haelodau
- gwella llwybrau i addysg uwch trwy'r Diploma Mynediad i AU.

3 Mae QAA yn cryfhau enw da byd-eang addysg uwch y DU

Mae ein trefniadau cydweithredol â llywodraethau ac asiantaethau ansawdd addysg uwch yn rhyngwladol yn rhoi ehangder unigryw o arbenigedd byd-eang i ni. Byddwn yn defnyddio'r ehangder a'r dyfnder hwn i wneud y canlynol:

- rhoi hyder yn ansawdd addysg drawswladol y DU
- ehangu partneriaeth ag asiantaethau ansawdd a llywodraethau tramor i adeiladu ymddiriedaeth a hyder yn addysg uwch y DU
- hyrwyddo buddiannau'r DU yn yr agenda bolisi yn Ardal Addysg Uwch Ewrop ac mewn trafodaethau ehangach ynghylch sicrhau ansawdd
- cynnal INQAAHE 2021 yn Glasgow ac ENQA 2022 yng Nghaerdydd
- cynyddu cyfranogiad yn ein rhaglenni meithrin capasiti ar gyfer systemau addysg uwch dramor
- adeiladu ein rhaglen achrediad rhyngwladol ac agor aelodaeth i sefydliadau rhyngwladol credadwy.

Yr hyn rydym yn ei wneud

Cefnogi ymateb y sector i bandemig COVID-19

1 Mae pandemig COVID-19 wedi parhau i gael effaith ddwys ar sector addysg uwch y DU ac ar weithgaredd QAA ledled y DU. Mae staff QAA wedi parhau i weithio gartref gyda swyddfeydd yn ailagor yn unol â chanllawiau priodol y llywodraeth. Mae cydweithwyr wedi cael cefnogaeth i weithio o bell trwy gydol y pandemig gyda gwerthusiadau unigol yn cael eu cwblhau i sicrhau bod gan bob cydweithiwr fynediad at yr adnoddau angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn ddiogel ac yn gyfforddus.

2 Mae adolygiadau a gynhaliwyd ledled y DU wedi cael eu symud ar-lein yn llwyddiannus gyda'r holl adolygiadau a ohiriwyd o'r blaen yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn. Bu staff QAA yn cynorthwyo darparwyr ac adolygwyr i gymryd rhan yn y broses adolygu ar-lein a sicrhau bod hyn yn drylwyr, fel y disgwyliad o adolygiadau QAA.

3 Rydym yn dechrau symud y tu hwnt i'r rhaglen o adnoddau cymorth COVID-19 sydd ar gael i'r cyhoedd, sydd wedi bod yn flaenoriaeth QAA dros y 18 mis diwethaf. Rydym wedi cyhoeddi dros 85 o adnoddau unigol trwy ein hyb cyngor a chanllawiau COVID-19 ar-lein, yn ogystal â threfnu bron i 40 o ddiwyddiadau gyda thros 1,300 o gyfranogwyr. Mae hyn yn ychwanegol at ddadansoddiad a mewnwelediad dyfnach ar gyfer aelodau, yn ogystal ag amryw o gyfarfodydd cyswllt cefnogol a sawl trafodaeth bwrdd crwn rhwng y Gweinidog Prifysgolion yn Lloegr a chyirff proffesiynol i gefnogi dysgu ac asesu ymarferol.

4 Rydym yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol gan aelodau a chydweithwyr yn y gwahanol lywodraethau yn y DU am ein gwaith gyda chyirff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (PSRBs). Rydym yn parhau i gynnwys cyfarfodydd â chydweithwyr o'r PSRB bob dwy flynedd i drafod ystod o bynciau gan gynnwys asesu, mesurau wrth gefn ar gyfer COVID-19 a chynghor arbenigol gan QAA, yn ogystal â chyhoeddi cynghor newydd i PSRB ar ddod allan o'r cyfnod clo ym mis Mehefin 2021.

Gwaith rheoleiddio QAA

QAA fel y Corff Ansawdd Dynodedig (DQB) yn Lloegr

5 Fel y corff ansawdd dynodedig (DQB) yn Lloegr, mae QAA yn gweithio ar gomisiwn y Swyddfa Myfyrwyr (OfS) i asesu ansawdd rhaglenni addysg uwch a gyflwynir gan ddarparwyr yn Lloegr, a'r safonau sy'n berthnasol iddynt. Yn unol â'n memorandwm cydddealltwriaeth, mae QAA yn cyflwyno adroddiad chwarterol sy'n amlinellu ein gwaith fel DQB, ochr yn ochr ag adroddiad blynyddol (mae'r flwyddyn DQB yn gweithredu rhwng Ebrill a Mawrth). Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd gyda swyddogion OfS a Phwyllgor Sicrwydd Ansawdd OfS (QAC).

6 Ymatebodd OfS i heriau COVID-19 trwy leihau'r baich rheoleiddio ar ddarparwyr ac ail-drefnu mwyafrif eu gweithgareddau rheoleiddio i ganolbwyntio ar elfennau amddiffyn defnyddwyr y fframwaith rheoleiddio. Adlewyrchwyd hyn, yn ei dro, mewn gostyngiad sylweddol yn nifer yr asesiadau y comisiynwyd QAA i'w cynnal fel y DQB. Yn 2020-21, cawsom 18 o atgyfeiriadau asesu a chwblhawyd 24 asesiad, gan gynnwys comisiynau a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.

7 Mae QAA hefyd yn darparu cynghor i OfS ynghylch ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau. Mae'r cynghor hwn yn cael ei lunio gan Bwyllgor Cynghori QAA ar Bwerau Dyfarnu Graddau (ACDAP), o dan awdurdod dirprwyedig gan Fwrdd QAA. Yn ystod 2020-21, darparodd ACDAP gynghor ynghylch naw darparwydd. Yn dilyn hynny, mae OfS wedi awdurdodi pwerau dyfarnu graddau i bedwar o'r darparwyr hyn.

8 Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd QAA Hysbysiadau Ffioedd Statudol i ddarparwyr, gan gadarnhau lefel derfynol ffioedd DQB yn Lloegr ar gyfer 2020-21 ac amcangyfrif o'r ffioedd ar gyfer 2021-22. Mae ffioedd DQB yn niwtral o ran cost ac nid yw QAA yn creu unrhyw elw yn sgil y gwaith hwn. Rydym wedi cyhoeddi datganiad yn cadarnhau gostyngiad o 8% yng nghost darparu swyddogaeth DQB yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn ogystal, mae cynnydd yn nifer y darparwyr cofrestredig yn golygu, dros y cyfnod o ddwy flynedd ers 2019-20, ein bod wedi gostwng ffioedd fesul darparydd 12.5% mewn termau real, yn amodol ar gysoni ffigurau ym mis Mai 2022. Mae QAA yn ad-dalu cyfanswm o £249,863 i'r sector.

Diploma Mynediad i AU

9 Mae QAA yn rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU Mae'r Diploma yn gymhwyster Lefel 3 a gydnabyddir yn eang sy'n darparu cyfleoedd i oedolion heb gymwysterau traddodiadol fynd i mewn i addysg uwch. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r Diploma yn adolygiad 2019 y Llywodraeth o addysg a chyllido ôl-18 fel llwybr pwysig, a gydnabyddir yn genedlaethol, sy'n helpu i ehangu cyfranogiad. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i oedolion sy'n dymuno ailhyfforddi ar gyfer proffesiwn sy'n gofyn am radd i gael mynediad iddo, trwy ddarparu cyrsiau hyblyg a ddyfeisiwyd yn lleol ledled y DU.

10 Mae 11 Asiantaeth Dilysu Mynediad (AVAs) wedi'u trwyddedu gan QAA i gymeradwyo cyrsiau Mynediad i AU. Ar hyn o bryd, mae tua 1,500 o gyrsiau o'r fath yn dyfarnu cymwysterau Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA. Yn 2019-20,¹ cyflwynodd 277 o ddarparwyr Mynediad i AU y cyrsiau hyn i ychydig dros 40,500 o ddysgwyr cofrestredig. Mae ystadegau ar gyfer y Diploma Mynediad i AU eleni yn tanlinellu effaith gadarnhaol y cymhwyster hwn wrth ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch:

- Roedd 40,500 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gyfer Diploma Mynediad i AU yn 2019-20
- Llwyddodd 22,635 o'r rhai oedd wedi cwblhau Diploma i gael mynediad i addysg uwch ym mis Medi 2019
- Derbyniwyd 24,465 o fyfyrwyr y Diploma i addysg uwch yn 2020.

11 Yn ystod y flwyddyn academaidd 2020-21, aeth yr holl Asiantaethau Dilysu Mynediad a darparwyr ati i addasu eu trefniadau ar gyfer dyfarnu'r Diploma Mynediad i AU. Cafodd y rhain eu crynhoi yn y Fframwaith Rheoleiddio Anghyffredin (ERF) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020, ar ôl cael eu datblygu mewn ymateb i COVID-19. Amcan yr ERF oedd sicrhau y byddai myfyrwyr y Diploma Mynediad yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig yn cael hyblygrwydd fel na fyddent dan anfantais, gan gadw'r cadernid angenrheidiol yn y cymhwyster.

12 Cynhaliwyd ein Cynhadledd Mynediad i AU flynyddol ym mis Mai 2021, i gyd-fynd â chynhadledd flynyddol QAA, gan ddarparu cyfleoedd i gyfranogwyr addysg bellach ac uwch gwrdd yn rhithiol a thrafod pwysigrwydd mynediad ar draws y system addysg drydyddol. Cymerodd dros 100 o gynrychiolwyr o 69 o sefydliadau ran yn y digwyddiad, gyda siaradwyr gwadd gan gynnwys Syr Philip Augar, cyn-Gadeirydd y Panel Addysg a Chyllido Ôl-18.

¹ Cyflwynir adroddiadau ar ystadegau QAA ar Fynediad i AU un flwyddyn academaidd yn ddiweddarach. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen am gael gafael ar ddata wedi'i ddilysu gan AVAs ar ôl i flwyddyn academaidd gael ei chwblhau a'i hardystio. Rydym yn derbyn data cyhoeddedig gan yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau (ESFA), UCAS a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA); cyhoeddir y setiau data hyn gan y sefydliadau perthnasol ar ôl cwblhau'r flwyddyn academaidd, ac nid ydynt ar gael fel rheol tan ar ôl cyhoeddi adroddiad blynyddol QAA. Mae'r set ddata gyfun hon yn ffurfio sail i'n hystadegau, ein cyhoeddiadau a'n dadansoddiad.

Gwaith QAA gyda darparwyr amgen

13 Yng ngoleuni cyfyngiadau COVID-19 yn Lloegr, aildrefnwyd adolygiadau Darparwyr Amgen o'r flwyddyn 2019-20 i'w cwblhau yn 2020-21. Roedd hyn yn rhoi cyfle i QAA gynnal trafodaethau gyda darparwyr i nodi eu rhaglen gyflwyno a rhoi mesurau lliniaru ar waith er mwyn caniatáu i adolygiadau ar-lein gael eu cynnal yn llwyddiannus. Mae'r 15 adolygiad o 2019-20 wedi'u cwblhau'n llwyddiannus yn y flwyddyn academaidd 2020-21. Mae adolygiadau a drefnwyd ar gyfer 2020-21 wedi parhau i weithredu'n llwyddiannus ar-lein.

14 Dathlodd QAA ddegawd o oruchwylio darparwyr addysg uwch amgen yn 2021. Ym mis Mawrth 2021, i nodi'r achlysur, cyhoeddwyd adroddiad yn dadansoddi themâu allweddol, arferion da a meysydd i'w gwella o dros 1,700 o adolygiadau o ddarparwyr a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn.

15 Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddwyd Pecyn Cymorth Addysg Uwch, gyda'r nod o roi cymorth i golegau a darparwyr addysg uwch annibynnol i ymwneud â Chôd Ansawdd Addysg Uwch y DU. Bwriedir i'r pecyn cymorth gael ei ddefnyddio gan ddarparwyr wrth adolygu a gwella eu harferion eu hunain, trwy nodi sut y gellir cymhwyso ac integreiddio egwyddorion y Côd Ansawdd yn eu cyd-destunau sefydliadol.

Byddai hyn yn hwyluso cydweithredu rhwng y gwledydd

16 Rydym yn parhau i fwynhau perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid allweddol yn y gwledydd datganoledig. Mae gweinidogion newydd wedi cymryd cyfrifoldeb am addysg uwch yn yr Alban a Chymru yn dilyn etholiadau yng ngwanwyn 2021, ac yng Ngogledd Iwerddon yn dilyn newidiadau i arweinyddiaeth y DUP ym mis Mehefin 2021. Mae'r Cyfarwyddwr dros yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon wedi ysgrifennu at Weinidogion ac aelodau pwyllgor sydd newydd eu penodi i gyflwyno gwaith QAA yn y gwledydd perthnasol, gan amlinellu ein bwriad i barhau â'r perthnasoedd cynhyrchiol yr ydym wedi'u ffurfio yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

17 Rydym wedi hwyluso nifer o drafodaethau rhwng rhanddeiliaid addysg uwch yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i drafod meysydd cyffredinedd o ran trefniadau adolygu ansawdd a chyfleoedd i rannu arfer gorau. Mae cynrychiolwyr o Gyngor Cyllido'r Alban, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon wedi mynegi awydd i QAA hwyluso cydweithredu pellach rhwng sectorau addysg uwch yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon gan ganolbwyntio ar welliant.

QAA yr Alban

18 Datblygwyd Adolygiad Cyngor Cyllido'r Alban (SFC) o Ddarpariaeth Gydlynol a Chynladwyedd mewn tri cham, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2021. Mae QAA wedi ymwneud â SFC trwy gydol y broses ac wedi mynegi parodrwydd i weithio'n agosach ar draws y sector trydyddol yn y tymor hir. O ran ansawdd, mae'r adroddiad yn argymhell datblygu un fframwaith sicrhau ansawdd a gwelliant ar gyfer addysg drydyddol, er mwyn cynnal safonau academaidd, a gwella profiad dysgu pob myfyriwr. Bydd QAA yn ymgysylltu â Llywodraeth yr Alban, SFC a rhanddeiliaid addysg uwch yr Alban wrth roi'r adolygiad ar waith.

19 Gan ymateb yn gyflym i'r newid i ddysgu ac addysgu o bell ym mis Mawrth 2020, aildrefnodd QAA yr Alban bedwar Adolygiad Sefydliadol dan arweiniad Gwelliant (ELIR) a oedd fod i gael eu cynnal yng ngwanwyn 2020. Mewn ymgynghoriad â SFC a phob un o'r sefydliadau yr effeithiwyd arnynt, cynhaliwyd yr ymweliadau adolygu ar gyfer ELIR ar-lein ym mis Tachwedd 2020, a gwnaed mân addasiadau i'r dull o weithredu er mwyn cynorthwyo adolygwyr oedd yn cymryd rhan yn y broses hon ar-lein am y tro cyntaf. Ar ôl cwblhau'r

adolygiadau hyn, cynhaliwyd tri adolygiad arall ar-lein yng ngwanwyn 2021. Byddwn yn gorffen cylch cyfredol ELIR 4 yn hydref 2021 gyda'r ddau sefydliad olaf - cynhelir yr adolygiadau hyn ar-lein. O'r rhai a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, barnwyd bod chwech yn 'gwbl effeithiol', gydag un yn derbyn dyfarniad 'effeithiolrwydd cyfyngedig'; ni ddyfarnwyd bod unrhyw sefydliad 'ddim yn effeithiol'. Rydym hefyd yn cychwyn ar adolygiad llawn o broses ELIR 4 i'n helpu i ddeall yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn y gallem fod am ei newid ar gyfer trefniadau ansawdd yn y dyfodol.

20 Cynhaliodd QAA yr Alban eu Cynhadledd Gwelliant Rhyngwladol ym mis Tachwedd 2020, gan ddod â 450 o gynrychiolwyr o 26 gwlad ynghyd i rannu dysgu, offer ac arfer arloesol o Themâu Gwelliant yr Alban ac ar draws y byd. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar drafod sut y gellir defnyddio tystiolaeth i adeiladu cymunedau dysgu gwydn mewn amgylcheddau allanol sy'n newid yn gyflym.

21 Wrth i ni ddwyn Thema Gwelliant 2017-20 i ben, rydym wedi lansio thema newydd ar gyfer 2020-23 o'r enw 'Cymunedau Dysgu Gwydn'. Mae'r thema newydd hon wedi cychwyn gyda saith prosiect cydweithredol yn seiliedig ar drafodaethau ar-lein. Cynhaliwyd ein cyfarfod Grŵp Arweinwyr Thema cyntaf ar-lein tua diwedd Ionawr 2021, ac mae sefydliadau wedi dechrau cyflwyno eu cynlluniau ar gyfer Blwyddyn 1.

QAA yng Nghymru

22 Cynhaliodd QAA dri Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) a dau Adolygiad Ansawdd Porth (GQR) yn ystod y flwyddyn. Cwblhawyd pob adolygiad yn llwyddiannus ar-lein ac arweiniodd at ganlyniadau cadarnhaol i'r holl sefydliadau a adolygwyd.

23 Cyhoeddodd QAA y llawlyfr ar gyfer yr adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020-21 ym mis Hydref 2020. Comisiynwyd yr adolygiad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac roedd yn dilyn ymgynghori helaeth ar draws sector addysg drydyddol Cymru. Mae'r adolygiad yn ymwneud â thri maes blaenoriaeth: Digidol, Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch, ac mae'n gweithredu ochr yn ochr â gwerthusiad Llywodraeth Cymru o gynllun peilot Prentisiaethau Gradd CCAUC. Yn dilyn cwblhau'r adolygiad yn llwyddiannus, mae QAA wedi paratoi adroddiad ar gyfer y sector cyfan, sy'n darparu crynodeb dienw o'r ddarpariaeth a'r canfyddiadau ar gyfer yr holl adolygiadau, yn ogystal â gwneud argymhellion ar gyfer cyflwyno rhaglenni prentisiaeth yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Medi 2021.

24 Yn dilyn trafodaethau â darparwyr Cymru a CCAUC, paratodd a chyhoeddodd QAA Cymru atodiad i Lawlyfr QER, gan leihau cwmpas adolygiadau sefydliadol i ganolbwyntio ar gyfrifoldeb statudol CCAUC - sef bod yn sicr o ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran darparwyr rheoledig. Gweithredwyd y newid hwn i leihau baich rheoleiddio a galluogi darparwyr i ganolbwyntio ar ymateb i bandemig COVID-19. Mae gwella ansawdd yn parhau i fod yn rhan allweddol o Fframwaith Asesu Ansawdd CCAUC ac, er y bydd gwelliant yn parhau i fod yn rhan o ymgysylltiad rheolaidd QAA â darparwyr sydd wedi'u neilltuo ar gyfer QER yn 2021-22, ni fydd y gweithgaredd hwn yn arwain at gyhoeddi unrhyw ddeilliannau na dyfarniadau. Bydd QAA yn gweithio gyda'r darparwyr hyn i gynnal eu hymgysylltiad â gweithgareddau gwella ansawdd yng Nghymru, a'u cyfraniad atynt.

25 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i symud y drafft o'r Mesur Addysg Drydyddol ac Ymchwil trwy'r Senedd. Mae QAA wedi ymwneud â'r cynigion, a fydd yn creu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ac rydym wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ym mis Mai i drafod y bil ar ffurf drafft. Un o'r prif newidiadau yn y trefniadau ansawdd y disgwylir iddynt ddod o'r Bil yw y bydd y Comisiwn yn dynodi corff ansawdd yn ffurfiol i gynnal adolygiadau o ansawdd a safonau.

QAA yng Ngogledd Iwerddon

26 Mae QAA wedi arwain trafodaethau gyda rhanddeiliaid y sector yng Ngogledd Iwerddon wrth i ni geisio datblygu dull pwrcasol newydd o asesu ansawdd ar sail gwelliant. Mae QAA wedi comisiynu dau brosiect i ystyried anghenion y sector. Mae Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon wedi nodi diddordeb mewn gofyn i QAA gynnal adolygiad ffurfiol o ansawdd yng Ngogledd Iwerddon, ac o bosibl gweithredu'r dull newydd trwy drefniant cytundebol.

Cynorthwyo â gwella ansawdd ymhlith Aelodau QAA

Gwasanaethau QAA i aelodau

27 Mae QAA wedi bod yn gweithredu model aelodaeth gwirfoddol ers 1^{af} Awst 2019; felly'r flwyddyn academaidd 2020-21 oedd ail flwyddyn Aelodaeth QAA.

28 Y prif ffocws eleni fu gweithio mewn partneriaeth â'n haelodau i gynnal ansawdd a safonau mewn ymateb i bandemig COVID-19. Ariennir ein canllawiau Covid gan ffioedd ein haelodau, ond maent ar gael i'r cyhoedd mewn cydnabyddiaeth o'r pwysau anghyffredin ar y sector ehangach yn sgil y pandemig. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cyhoeddi 11 o ganllawiau COVID-19, sy'n adeiladu ar y 29 dogfen ganllaw a'r adnoddau cymorth a gyhoeddwyd gennym yn 2019-20 wrth i aelodau ddechrau addasu i ymdopi â heriau'r pandemig.

29 Roedd diddordeb mewn Aelodaeth QAA yn gryf, gyda 236 o sefydliadau'n cofrestru ar gyfer Aelodaeth QAA yn Lloegr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020-21. Ynghyd â darparwyr yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, roedd cyfanswm o 279 aelod ledled y DU. Gan edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd 2021-22, ym mis Medi 2021 - roedd 241 o ddarparwyr yn Lloegr wedi dewis adnewyddu eu haelodaeth neu ymuno o'r newydd.

30 Cyhoeddodd QAA 138 o adnoddau unigryw ar gyfer aelodau - 94 o gyhoeddiadau ar gyfer aelodau craidd, 23 ar gyfer y rhai sy'n tanysgrifio ar gyfer *Quality Insights*, a 21 ar gyfer tanysgrifwyr *International Insights*. Roedd y cyhoeddiadau'n amrywio o becyn cymorth ar ddeall ac ymwneud â'r daith gwerth-myfyrwyr i ymchwil ar ddulliau Aelodau QAA o ymdrin â chamymddwyn academaidd. Hefyd cynhaliwyd ystod o ddigwyddiadau llwyddiannus ar-lein ar gyfer ein haelodau: mynychwyd dros 40 o weminarau, 12 rhaglen hyfforddi, a 31 o ddigwyddiadau a gweithdai - gan gynnwys ein cynadleddau *Quality Insights* ac Esblygu Ymgysylltiad â Myfyrwyr, a Chynhadledd Flynyddol QAA, gan fwy na 3,900 o gynrychiolwyr o dros 300 o sefydliadau.

Gan weithio gydag aelodau QAA ac addysg uwch yn y DU i fynd i'r afael â materion dybryd yn y sector.

31 Ar 26^{ain} Mai, lanswyd yn ffurfiol ail rifyn y Fframwaith Credyd Addysg Uwch ar gyfer Lloegr, a ddatblygwyd gyntaf yn 2008. Diben y naill gyhoeddiad diwygiedig a'r llall yw hwyluso yn hytrach na rhagnodi, a'u nod yw cynorthwyo darparwyr yn Lloegr i ddatblygu system gredydau academaidd hyblyg, tryloyw a chyson, gyda dysgwyr yn y canol. Credwn fod hyn yn cyd-fynd â'r Mesur Sgiliau ac Addysg Ôl-16 a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Lloegr ynghyd â diwygiadau dysgu hyblyg cysylltiedig. Rydym yn ddiolchgar i'r Athro Sue Rigby am ei gwaith yn cadeirio ein grŵp cynghori dros y flwyddyn ddiwethaf, a oedd yn ymgysylltu aelodau â'r adolygiad o'r Fframwaith Credyd a chynghor cysylltiedig.

32 Recriwtwyd cyfranogwyr o blith y cyrff sy'n aelodau i ymuno â grwpiau cynghori ar bynciau ar gyfer Datganiadau Meincnodi Pwnc a fydd yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae Datganiadau Meincnod Pwnc yn disgrifio natur yr astudio a'r safonau

academaidd a ddisgwylir gan raddedigion mewn meysydd pwnc penodol. Maent yn dangos yr hyn y gellid disgwyl yn rhesymol i raddedigion fod yn ei wybod, ei wneud a'i ddeall ar ddiwedd eu hastudiaethau. Cânt eu defnyddio fel cyfeirbwyntiau wrth gynllunio, cyflwyno ac adolygu rhaglenni academaidd. O eleni ymlaen, bydd ymagweddiad newydd tuag at Gydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant (EDI), Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ESD), menter ac entrepreneuriaeth, a hygyrchedd i fyfyrwyr anabl, yn cael ei fabwysiadwyd o fewn cylch gwaith yr adolygiadau hyn. Bydd 14 o Ddatganiadau Meincnod Pwnc yn cael eu hadolygu yn 2021.

33 Mae ymgysylltu â myfyrwyr a sicrhau bod eu safbwyntiau a'u barn yn bwydo i mewn i weithgarwch QAA yn allweddol o ran sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau effeithiol ar gyfer y sector. Mae myfyrwyr wedi'u gwreiddio yn ein llywodraethiant, gyda dau aelod o'r Bwrdd yn fyfyrwyr yn ogystal â'r myfyrwyr hynny sy'n aelodau ar Bwyllgorau Ymgynghorol QAA yr Alban a Chymru. Mae gennym hefyd Bwyllgor Cynghori Strategol Myfyrwyr sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Rydym wedi cynnal dau ddigwyddiad sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr eleni - 'Materion Ansawdd' ac 'Esblygu Ymgysylltiad Myfyrwyr' - y naill a'r llall yn denu cynrychiolaeth myfyrwyr o bob rhan o'r DU.

34 Mae QAA yn parhau i fod ar flaen y gad o ran ymateb y sector addysg uwch i'r bygythiadau i uniondeb academaidd, ac mae'n gartref i Grŵp Cynghori Uniondeb Academaidd y DU, sy'n cynnwys arbenigwyr o'r sector, asiantaethau a chynrychiolwyr llywodraethau o bob rhan o'r DU. Ym mis Hydref 2020, lansiodd Siarter Uniondeb Academaidd i gyd-fynd â'r Diwrnod Rhyngwladol o Weithredu yn Erbyn Twyllo Trwy Contract. Mae'r siarter wedi'i datblygu gyda mewnbwn gan y Grŵp Cynghori ar Uniondeb Academaidd, ac fe'i cymeradwywyd gan Weinidog Prifysgolion Lloegr, Michelle Donelan AS a Gweinidog Addysg Uwch yr Alban ar y pryd, Richard Lochhead ASA. Mae'n nodi cyfres o egwyddorion sy'n dangos ymrwymiad y rhai sydd wedi arwyddo'r Siarter i ddiogelu a hyrwyddo uniondeb academaidd. Lansiodd y Siarter yn y cyfryngau ym mis Ebrill 2021, gan ddenu sylw sylweddol yn y wasg genedlaethol ac o fewn y sector. Erbyn mis Awst 2021, roedd 172 o sefydliadau a chyrrff wedi ymrwymo i'r Siarter, a byddwn yn gweithio gyda'n haelodau i asesu'r effaith y mae arwyddo'r Siarter wedi'i chael ar weithgarwch sefydliadol i hyrwyddo a diogelu uniondeb academaidd.

35 Mae QAA hefyd yn parhau i weithio gyda chynrychiolwyr y sector a gwleidyddion i fynd ar drywydd gwaharddiad deddfwriaethol ar felinau traethawd. Cafodd yr ymgyrch hon hwb ym mis Mehefin 2021 pan gyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Lloegr dros Addysg, Gavin Williamson AS, mewn cynhadledd HEPI y byddai'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r Arglwydd Storey, aelod o'r Grŵp Cynghori ar Uniondeb Academaidd, ac un o arglwyddi'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Lloegr, i gyflwyno deddfwriaeth sy'n gwahardd yr arfer hwn. Mae QAA yn parhau i weithio'n agos gyda'r Arglwydd Storey, rhanddeiliaid gwleidyddol eraill ac arbenigwyr y sector i ddatblygu'r gwaith hwn a sicrhau nad yw ei effaith yn gyfyngedig i Lloegr yn unig.

36 Ym mis Rhagfyr, lansiodd rhaglen newydd o Brosiectau Gwelliant Cydweithredol. Mae'r cyllid a ddarperir gan QAA ar gyfer y prosiectau hyn yn caniatáu i grwpiau bach o sefydliadau sy'n aelodau weithio gyda'i gilydd i wella ansawdd profiadau dysgu eu myfyrwyr, ynghyd â datblygu allbynnau er budd Aelodaeth ehangach QAA. Derbyniwyd 32 o geisiadau, o blith amrywiaeth o wahanol fathau o sefydliadau; dyrannwyd cyllid i 13 o brosiectau a oedd yn cynnwys 49 o sefydliadau addysg uwch, saith coleg addysg bellach, un undeb myfyrwyr, ac o leiaf un awdurdod lleol. Er mai dim ond un undeb myfyrwyr sydd wedi'i enwi fel partner cydweithredol, mae pob un o'r prosiectau'n nodi ffyrdd o ymgysylltu â myfyrwyr. Rydym bellach wedi cadarnhau cyllid o tua £100,000 ar gyfer 13 o brosiectau dros ddwy flynedd. Mae prosiectau'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau blaenoriaeth gan gynnwys asesu cynhwysol, llwybrau hyblyg, a chyflwyno digidol/cyfunol.

37 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ADC), mewn partneriaeth ag AU Ymlaen. Mae'r cyhoeddiad ar gael i aelodau QAA ac AU Ymlaen yn unig, ac mae wedi'i gynllunio i helpu darparwyr i alluogi ADC ar draws pob cwricwlwm. Mae'n darparu canllawiau ar gyfer gwreiddio ADC fel rhan o gynllunio'r cwricwlwm, addysgu, dysgu ac asesu. Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ymrwymiad a chefnogaeth strategol ar lefel sefydliad wrth geisio datblygu ADC, a sut y gall ADC fframio ac atgyfnerthu amcanion sefydliadol eraill.

38 Fel rhan o'r hyn sydd ar gael i'r aelodaeth, mae QAA yn ymwneud â materion polisi a datblygiadau ledled y DU. Fel rhan o hyn, rydym yn ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus ar ran Aelodau QAA a'r sector addysg uwch ehangach. Mae'r ymatebion a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: ymgynghoriadau'r Swyddfa Myfyrwyr ar ansawdd a safonau, ac addysgu a dysgu digidol; ymgynghoriad yr Adran Addysg ar dderbyniadau Ôl-gymhwys; adolygiad Cyngor Cyllido'r Alban o ddarpariaeth gydlynol a chynladwyedd; ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Drafft ar gyfer y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil; ac adolygiad o gymwysterau Lefel 3 yn Lloegr.

Cynnig cefnogaeth i'n haelodau ac addysg uwch y DU yn rhyngwladol

39 Mae QAA yn parhau i ddatblygu partneriaethau cryf gyda sefydliadau partner rhyngwladol er mwyn cefnogi sector addysg uwch y DU. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi arwyddo memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r Comisiwn Achrediad Academaidd (CAA) yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig. Mae'r bartneriaeth bwysig hon yn ein galluogi i rannu gwybodaeth a chydweithio ar raglenni gweithgaredd y cytunwyd arnynt er mwyn cefnogi cydweithredu ar draws ein priod wledydd.

40 Mae addysg drawswladol (TNE) yn chwarae rhan arwyddocaol wrth helpu i gynnal enw da byd-eang addysg uwch y DU. Yn 2019-20, nododd 156 o brifysgolion y DU weithgarwch TNE mewn dros 225 o wledydd a thriogaethau – gyda thros 453,000 o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau'r DU y tu allan i'r DU.

41 Mae QAA wedi parhau i gynhyrchu adroddiadau gwlad fel rhan o'r hyn a gynigiwn i'n haelodau *International Insights*. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi trosolwg o'r dirwedd addysg uwch a rheoleiddio yn y wlad sydd dan sylw ac yn cynnig gwybodaeth lefel uchel am reoliadau, heriau a chyfleoedd sy'n berthnasol i darparwyr TNE y DU sy'n awyddus i ehangu eu gweithgareddau. Yn ystod y flwyddyn, fe gyhoeddom adroddiadau gwlad ar Weriniaeth Pobl Tsieina, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Gweriniaeth India a Siapan. I gyd-fynd â phob un o'r adroddiadau hyn, cynhaliwyd gweminar ar y cyd ag asiantaethau a sefydliadau addysg uwch perthnasol yn y gwledydd hynny.

42 Lansiodd QAA eu dull newydd o adolygu Gwella Ansawdd a Gwerthuso Addysg Drawswladol (UK QE-TNE) ym mis Mai 2021, a gomisiynwyd gan sefydliad Prifysgolion y DU a *GuildHE* ar ran sector addysg uwch y DU. Datblygwyd y dull hwn mewn ymgynghoriad â'r sector gyda chyfranogiad gan fwy na 100 o gynrychiolwyr o dros 20 o wledydd, gan gynnwys holl wledydd y DU.

43 Mae QE-TNE yn cynnwys rhaglen o weithgarwch gwella ansawdd o fewn y wlad sydd dan sylw - fel arfer, tair gwlad/tiriogaeth mewn unrhyw flwyddyn academaidd - gan gynnwys gwlad sydd eisoes yn cynnal gweithgarwch TNE sylweddol a dau leoliad â darpariaeth TNE lai neu sy'n datblygu. Bydd cyrff dyfarnu graddau'r DU sydd â darpariaeth TNE yn y gwledydd hynny, ac sydd wedi ymuno â'r cynllun erbyn 18 Medi, yn cael eu hadolygu fel rhan o'r gweithgaredd hwn o fewn y wlad. Bydd gan y sefydliadau sy'n cymryd rhan hefyd fynediad at ystod o adnoddau gan gynnwys adroddiadau ar ymweliadau, astudiaethau achos ac adroddiadau gwlad sy'n helpu i wella eu darpariaeth TNE, a bydd gan Aelodau QAA fynediad at allbynnau ychwanegol. Y tair gwlad a ddewiswyd i gymryd

rhan yn yr adolygiad ar gyfer 2021-22 yw'r Emiraethau Arabaidd Unedig, yr Aifft a'r Almaen; ac ar gyfer 2022-23 bydd Tsieina, Sri Lanka a Theyrnas Saudi Arabia yn cael eu hadolygu. Bydd y cynllun yn rhedeg am bum mlynedd - tan 2025-26, ac mae dros 70 o sefydliadau'r DU yn cymryd rhan, sy'n cynrychioli dros 70% o gyfanswm poblogaeth myfyrwyr TNE.

44 Ym mis Ebrill 2021, lansiodd QAA yn ffurfiol '*IQR for ACE Impact*', sef ein fersiwn wedi'i theilwra'n benodol o Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol ar gyfer prosiect Canolfannau Rhagoriaeth Affrica Banc y Byd yng Ngorllewin Affrica a Djibouti. Ers mis Medi 2021, mae un sefydliad wedi ymuno â'r prosiect ac mae eraill wrthi'n trafod y prosiect gyda QAA ar hyn o bryd.

45 Etholwyd Prif Weithredwr blaenorol QAA, Douglas Blackstock, yn Llywydd y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (ENQA) ym mis Ebrill 2021. Mae hyn yn cynrychioli parhad o gyfnod bron yn ddi-dor o gynrychiolaeth uwch QAA yn ENQA ers sefydlu'r gymdeithas yn 2004. Bydd y rôl hon o fudd sylweddol i QAA ac addysg uwch y DU, gan ganiatáu i ni rannu arfer rhyngwladol a pharhau i gryfhau perthnasoedd o fewn yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd (EHEA). Mae staff eraill QAA wedi cael eu gwahodd gan ENQA i chwarae rolau pwysig - Alastair Delaney, Cyfarwyddwr Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fel aelod o Bwyllgor Adolygu ENQA a Gareth Crossman, Pennaeth Polisi a Chyfathrebu, fel cadeirydd gweithgor Uniondeb Academic ENQA.

46 Cynhaliwyd cynhadledd eilflwydd y Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Asiantaethau Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (INQAAHE) ym Mehefin 2021. Er nad oeddem yn gallu gwahodd cynadleddwyr i Glasgow fel y cynlluniwyd yn wreiddiol, llwyddwyd i ddenu dros 212 o gynrychiolwyr o 53 o wledydd i'r gynhadledd ar-lein ar y thema 'Ail-ddychmygu Ansawdd Addysg Uwch mewn Oes o Ansicrwydd'.

Gwersi a ddysgwyd

47 Rydym wedi cynnal prosiect dros y flwyddyn ddiwethaf ar sut y gallwn gynnig gwell cefnogaeth i'n haelodau yng Ngogledd Iwerddon. Edrychwn ymlaen at ymateb i ganfyddiadau'r prosiect hwnnw trwy ein gwaith gyda sefydliadau addysg uwch Gogledd Iwerddon dros y flwyddyn nesaf.

48 Mae pandemig COVID-19 wedi parhau i olygu heriau sylweddol i ddarparwyr addysg uwch, staff a myfyrwyr. Mae sefydliadau wedi parhau i ddatblygu ac addasu eu darpariaeth yn unol â chyfyngiadau. Fel y disgrifiwyd uchod, trwy gydol y cyfnod hwn, mae QAA wedi datblygu canllawiau helaeth i gynorthwyo'r sector i barhau â darparu profiad dysgu o ansawdd uchel i fyfyrwyr. Mae cydweithio wedi parhau i chwarae rhan ganolog yng ngwaith QAA gyda'n staff ac aelodau'r Bwrdd yn cynnal trafodaethau sylweddol ag arweinwyr sefydliadol, arbenigwyr ansawdd a myfyrwyr er mwyn llywio'r arweiniad a gynhyrchwn. Mae cydweithredwyr allweddol eraill QAA dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys llywodraethau, cyrff proffesiynol, asiantaethau ansawdd rhyngwladol a phartneriaid rhyngwladol eraill.

49 Roedd cydweithio o fewn y sector yn hollbwysig o ran rhoi cymorth i fyfyrwyr a darparwyr rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch trwy gydol y pandemig, ac mae wedi helpu i sicrhau bod y Fframwaith Rheoleiddio Anghyffredin (ERF) a oedd yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r Diploma Mynediad i AU yn cael ei gyflwyno a'i reoli'n llwyddiannus. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth a chydweithrediad nifer o bartneriaid gan gynnwys yr Adran Addysg, *Ofqual*, Cymwysterau Cymru, Cymdeithas y Colegau, Grŵp Arweinwyr Croenddu AB, UCAS, darparwyr Mynediad i AU, ein Hasiantaethau Dilysu Mynediad (AVAs) ac, wrth gwrs, myfyrwyr.

50 Ar ôl cael y cyfle i fyfyrion ar yr effaith a gafodd y pandemig, ac yn ei sgil, symud i weithio o bell, ar ddiwylliant gwaith QAA, mae grŵp 'Ffyrdd o Weithio' QAA wedi cydweithio i nodi newidiadau buddiol parhaol mewn arferion gwaith. Ym mis Gorffennaf 2021, lansiodd QAA yr athroniaeth weithio newydd 'Flex+'. Mae'r trefniadau newydd yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i staff QAA o ran eu lleoliad gwaith a'u horiau gwaith mewn cytundeb â'u rheolwr llinell a'r tîm ehangach. Mae canllawiau newydd Flex+ yn dangos ymrwymiad QAA i hyblygrwydd bob-dydd a mabwysiadu diwylliant sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a thegwch.

Edrych tua'r dyfodol

51 Yn 2021-22, mae'r hyn a gynigiwn i'n haelodau'n rychwantu pum thema rhyng-gysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith ledled y DU i sicrhau safonau ac ansawdd, yn ogystal â gweithgareddau sy'n ymwneud â gwelliant, a gyd-grewyd gyda'n haelodau i sicrhau bod ein gweithgareddau'n ymatebol i'r gwahanol gyd-destunau y mae aelodau'n gweithredu ynddynt. Yn sail i'r pum thema hyn mae ystod o ddigwyddiadau, rhwydweithio a gweithgareddau hyfforddiant a datblygu. Y pum thema yw:

- Y tu hwnt i COVID-19: Dyfodol Dysgu Digidol a Chyfunol
- Creu Cymunedau Dysgu Cynhwysol - Llwybrau ac Addysgeg Hyblyg
- Ymgysylltu Byd-eang a TNE
- Gwerthuso a Gwneud Penderfyniadau ar Sail Data
- Diogelu Safonau Academaidd

Bydd pob thema'n cynnwys ystod o adnoddau ymarferol, gan sicrhau bod gan aelodau fynediad at wybodaeth o ansawdd uchel. Cefnogir hyn ymhellach gan ddigwyddiadau a gweithdai sy'n dod ag Aelodau QAA ynghyd i rwydweithio a rhannu arfer. Mae QAA ar hyn o bryd yn gweithio ar ddatblygu model Aelodaeth Ryngwladol a fydd yn cynnig holl fanteision Aelodaeth QAA i ddarparwyr addysg uwch rhyngwladol.

52 Mae addysg uwch yn parhau i fod yn uchel ar agendâu polisi llywodraethau'r DU. Yn ogystal â'r cynigion y mae'r Swyddfa Myfyrwyr yn ymgynghori arnynt ynghylch ansawdd a safonau, mae Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 sydd â'r nod o chwyldroi'r sector addysg bellach ac ôl-16 a chyflwyno Hawl i Fenthyciad Gydol Oes, y bydd yn ymgynghori arno yn ddiweddarach eleni. Mae gwaith yn parhau ar weithredu newidiadau yn y ffordd y caiff addysg uwch ei rheoleiddio a'i hariannu yng Nghymru a'r Alban, tra bod Gogledd Iwerddon yn parhau i fod wedi ymrwymo i adolygiad o drefniadau asesu ansawdd. Bydd QAA yn parhau i gymryd rhan mewn datblygu polisi ar draws yr holl wledydd yn ystod y flwyddyn i ddod, a bydd yn parhau i gynorthwyo Aelodau QAA i gymryd rhan yn y trafodaethau hyn.

53 Yn ystod hydref 2021 bydd ein Prif Weithredwr presennol, Douglas Blackstock yn ymadael ar ôl 20 mlynedd o wasanaeth gyda QAA. Olynir Douglas yn y rôl gan ein Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Dirprwy Brif Weithredwr, Vicki Stott, a benodwyd yn Brif Weithredwr newydd yn gynharach eleni. Edrychwn ymlaen at ddathlu cyfraniad arbennig Douglas i waith QAA, ac at waith y sefydliad yn y dyfodol o dan arweiniad Vicki.

54 2021-22 fydd blwyddyn gyntaf rhaglen QAA ar gyfer Gwella Ansawdd a Gwerthuso Addysg Drawswladol (QE-TNE). Erbyn mis Medi 2021, roedd 78 o sefydliadau addysg uwch wedi cofrestru ar gyfer QE-TNE. Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen, cynhelir gweithgareddau yn y gwledydd canlynol: yr Aiff, yr Almaen a'r Emiradau Arabaidd Unedig (UAE). Nod Cynllun QE-TNE yw datblygu mwy o ymddiriedaeth, dealltwriaeth a chydabyddiaeth rhwng y DU a'r gwledydd hynny sy'n cynnal TNE, gan wella ansawdd addysg drawswladol ar yr un pryd.

55 Bydd QAA hefyd yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 oed yn 2022, gan nodi chwarter canrif fel yr awdurdod mwyaf blaenllaw ar ansawdd a safonau mewn addysg uwch yn y DU. Byddwn yn mynd ati i gynnal nifer o ddigwyddiadau i nodi'r achlysur, mewn cydweithrediad â'n haelodau a'n partneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol.

Adolygiad ariannol

56 Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â gofynion y Datganiad Arferion a Argymhellir ar gyfer Elusennau (SORP). Yn dilyn cyhoeddi ein strategaeth ar gyfer 2020-25 gyda'i thri nod strategol, dangosir adnoddau a wariwyd ar weithgareddau elusennol wedi'u rhannu rhwng y nodau hyn. Mae'r nodyn ar gyfanswm adnoddau a wariwyd (nodyn 7, tudalen 45) yn rhannu'r categorïau hyn ymhellach ac yn cynnwys dyraniad o gostau cynnal ar draws y nodau.

Canlyniadau

57 Ariannwyd gweithgareddau 2020-21 QAA yn bennaf trwy gcontractau gyda'r cyrff cyllido addysg uwch, aelodaeth gan ddarparwyr addysg uwch, ffioedd a godir o dan HERA, a thaliadau am oruchwylio ac adolygu darparwyr addysg uwch amgen. Cynhyrchwyd incwm ychwanegol trwy weithgaredd adolygu rhyngwladol arall, gwasanaethau cynghori, cyfraniadau gan AVA ac incwm buddsoddi.

58 Incwm net QAA ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021, cyn cydnabod enillion buddsoddi, oedd £17,139 (2020: incwm net o £1,078,515). Ar ôl cydnabod enillion net ar fuddsoddiadau o £678,889 (2020: colledion o £337,220), roedd y symudiad net mewn arian am y flwyddyn yn gynydd o £696,028 (2020: cynnydd o £741,295) sydd wedi cynyddu'r arian wrth gefn. Y swm o arian cronedig ar 31 Gorffennaf 2021 yw £4,735,501 (2020: £4,039,473).

59 Mae is-gwmni masnachu y mae QAA yn berchen arno, *QAA Enterprises Limited*, wedi gwneud elw o £2,279 (2020: colled o £21,651) i warged y grŵp. Ni wnaed unrhyw daliad cymorth rhodd (2020: £20,044) i'r elusen yn ystod y flwyddyn.

Incwm

60 Bu gostyngiad o £927,932 (10%) yng nghyfanswm yr incwm fel y dangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA) i £8,299,644 rhwng 2019-20 a 2020-21. Mae incwm o weithgareddau elusennol yn dangos gostyngiad net o £888,216 (9.8%).

61 Achosodd y gostyngiadau yn nifer yr asesiadau a gomisiynwyd gan OfS o dan HERA fel y Corff Ansawdd Dynodedig (gweler paragraff 6) ostyngiad mewn incwm rheoleiddio o £1,341,013; 32.9%.

62 Gwrthbwydwyd y gostyngiad hwn yn rhannol gan gynydd cyffredinol mewn aelodaeth, contractau gyda chyrrff cyllido addysg uwch a darparwyr addysg uwch amgen.

63 Mae incwm o fuddsoddiadau wedi gostwng £45,716 (28.4%) i £115,098.

64 Yr incwm o fuddsoddiadau yw llog ar arian parod, ynghyd â difidendau a llog o fuddsoddiadau asedau sefydlog. Trafodir adenillion ar fuddsoddiadau yn yr adran Rheolaeth Ariannol isod.

Gwariant

65 Bu cynydd o £133,444 (1.6%) yng nghyfanswm y gwariant, fel y dangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA) i £8,282,805 rhwng 2019-20 a 2020-21.

66 Gostyngodd gwariant ar weithgareddau elusennol cyn costau ailstrwythuro a darpariaeth pensiwn £1,093,477 (11.8%) i £8,166,314, wrth i gostau cyflwyno uniongyrchol

ostwng yn unol â'r gostyngiad yn nifer yr asesiadau a gomisiynwyd a'r cyfyngiadau parhaus yn sgil y pandemig arwain at ostyngiadau mewn gwariant ar swyddfa a chostau teithio.

67 Fodd bynnag, cynyddodd cyfanswm y gwariant ar weithgareddau elusennol £131,354 (1.6%) gan fod cynnydd wedi bod yn 2020-21 yn y diffyg pensiwn o £106,278 mewn cyferbyniad â'r gostyngiad yn 2019-20 o £1,267,259, gan roi cynnydd cyffredinol mewn gwariant ar y diffyg pensiwn o £1,373,537. Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer pensiynau'n cynrychioli cost y cynnydd yn y rhwymedigaethau ar gyfer ariannu'r diffyg o £134,886, wedi'i wrthbwysu gan leihad mewn cyfraniadau diffyg o £59,723 (2020; £48,395) sy'n daladwy i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS).

68 Yn dilyn newidiadau yn USS, mae'r cynllun hwn bellach yn cynnwys dwy ran: Cynllun Adeiladu Incwm ar gyfer Ymddeoliad USS sy'n drefniant buddion diffiniedig; a Chynllun Adeiladu Buddsoddiad USS sy'n drefniant cyfraniadau diffiniedig. Mae'r gwerthusiad ffurfiol diweddaraf o'r rhwymedigaethau o ran buddion diffiniedig gan USS wedi'i gynnal ar 31 Mawrth 2018 i fodloni gofynion *Deddf Pensiynau 2004*. Mae'r gwerthusiad hwn yn dangos diffyg o £3.6bn yn USS gydag asedau'r cynllun yn ddigon i dalu am 95% o'i rhwymedigaethau o ran 'darpariaethau technegol'.

69 Ceir dadansoddiad o wariant elusennol rhwng yr amcanion strategol yn nodyn 6 ar dudalen 44.

70 Darperir dadansoddiad o wariant elusennol rhwng costau uniongyrchol a chostau cynnal yn y nodyn ar gyfanswm gwariant elusennol (nodyn 7, tudalen 45).

Y Fantolen

71 Cyfanswm yr arian ar fantolen grŵp QAA yw £4,735,501 (2020: £4,039,473). Mae gwerth net yr asedau sefydlog diriaethol a ddelir gan y grŵp a'r elusen yn dangos gostyngiad o £230,019 gyda dibrisiant yn fwy na'r £40,453 a wariwyd ar ychwanegiadau (gweler nodyn 12 ar dudalen 50). Mae gwerth net buddsoddiadau ar ffurf asedau sefydlog wedi cynyddu £783,095 i £5,083,386.

72 Mae dyledwyr masnachol wedi cynyddu £1,026,137 i £1,488,919 o ganlyniad i anfonebu'r aelodaeth yn gynharach am y cyfnod yn dechrau 1 Awst 2021. Mae hyn, yn ei dro, wedi cynyddu incwm gohiriedig £1,869,889 i £4,292,548.

Polisi Arian Wrth Gefn

73 Mae polisi Arian Wrth Gefn QAA yn gosod ystod darged ar gyfer arian rhydd wrth gefn, gan ystyried: effaith ariannol y risg; ansefydlogrwydd ffrydiau incwm presennol ac yn y dyfodol; y camau sydd eu hangen os bydd incwm yn gostwng; ac effaith ymrwmiadau'r dyfodol. Mae'r ystod darged yn sgil hyn ar gyfer arian rhydd wrth gefn, yn dilyn yr adolygiad blynyddol, wedi'i osod ar £3.1-£4.0 miliwn. Mae lefel yr arian rhydd sydd wrth gefn sydd ar gael yn £3.3 miliwn, sy'n dod o fewn yr ystod hon.

74 Fel rhan o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr o ran priodoldeb mabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae ystod o senarios wedi'u hystyried. Mae'r tybiaethau a fodelwyd yn seiliedig ar amcangyfrif o effaith bosibl newidiadau hysbys yn y sector ac unrhyw effaith yn sgil cyfyngiadau a rheoliadau COVID-19, ynghyd â'n hymatebion arfaethedig dros y 18 mis nesaf.

75 Ar sail yr adolygiad hwn, paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn seiliedig ar Fusnes Gweithredol, y mae'r Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn briodol ar sail canlyniadau'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 a rhagolygon a rhagamcanion llif arian a

baratowyd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf. 2023. Mae'r rhagamcanion llif arian yn dangos y bydd y Grŵp yn gallu bodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus, a bydd yn gallu gweithredu o fewn y cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd sylweddol ynghylch hyfywedd ariannol y cwmni elusennol.

76 Mae QAA yn cadw arian wrth gefn am dri phrif reswm:

- i sicrhau ei sefyllfa hirdymor
- i gyflawni'r amcanion tymor canolig yn strategaeth QAA, trwy sicrhau bod lefelau arian wrth gefn yn darparu amddiffyniad yn erbyn risgiau busnes tymor canolig ac yn rhoi ystyriaeth lawn i gostau amcanion tymor canolig
- i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni'r rhaglen waith y manylir arni yng nghynllun blynyddol y flwyddyn nesaf – er enghraifft, trwy allu talu am ddiffygion sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gweithgareddau tymor-byr nad ydynt wedi'u hariannu'n llawn.

77 Mae Cronfa Arloesedd a Datblygu ddynodedig yn cael ei neilltuo 'ar gyfer arloesi mewn cynhyrchion a gwasanaethau er budd hirdymor addysg uwch y DU'. Balans agoriadol y gronfa oedd £24,694. Ym mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2021, rhoddwyd ystyriaeth i ailgyflenwi'r gronfa wrth gefn hon, a throsglwyddwyd £500,000 pellach i'r gronfa at ddibenion darparu gwasanaethau ychwanegol i Aelodau QAA a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau rhyngwladol ychwanegol. Mae'r gwariant hwn wedi'i gyllidebu i ddechrau yn 2021-22.

78 Crëwyd cronfa ddynodedig ar gyfer ailstrwythuro yn 2018-19 i dalu am gostau ailstrwythuro yn ystod 2019-20. Rhyddhawyd gweddill yr arian nas defnyddiwyd o £23,980 yn ôl i'r gronfa arian wrth gefn yn 2020-21.

79 Ar 31 Gorffennaf 2021, roedd y swm yng nghronfa arian wrth gefn QAA fel y'i diffinnir gan y SORP Elusennau yn £3,371,290 (2020: £3,021,261).

Rheolaeth ariannol

80 Y prif egwyddorion sy'n sail i bolisi rheolaeth ariannol QAA yw sicrhau:

- bod gan QAA ddigon o arian parod a chyfalaf wrth law i'w galluogi, bob amser, i fod â digon o arian i gyflawni eu hamcanion busnes
- bod buddsoddiadau QAA yn ddiogel - cyflawnir hyn trwy sicrhau bod eu buddsoddiadau awdurdodedig yn adlewyrchu agwedd ddarbodus ac amharod i ymgymryd â risg tuag at y sefydliadau y gellir buddsoddi arian gyda hwy, ac mae'n cyfyngu eu gweithgareddau buddsoddi i'r rhai a gymeradwyir.
- bod QAA yn sicrhau'r elw mwyaf ar eu buddsoddiadau, gan ystyried yr egwyddorion allweddol eraill
- bod QAA yn lleihau'r risg o dwyll neu gamgymeriadau yn eu gweithgareddau rheolaeth ariannol - cyflawnir hyn trwy gynllunio systemau, gweithdrefnau a threfniadau rheoli arian wrth gefn addas, er mwyn lleihau'r risg o dwyll neu gamgymeriad.

81 Yn ystod 2020-21, parhawyd i ddilyn y dull buddsoddi diwygiedig y cytunwyd arno gan yr ymddiriedolwyr, gyda'r arian sydd ar gael yn cael ei rannu'n dair chyfran, i bob diben, a'i reoli fel a ganlyn:

- **cyfalaf gweithio byr-dymor** - sy'n cael ei warchod gan fancwyr QAA, sef Banc HSBC ccc, ac a reolir yn fewnol

- **arian parod tymor canolig** - wedi'i fuddsoddi gyda Banc HSBC ccc a Banc Lloyds ccc a'i reoli'n fewnol yn unol â'n cynllun llif arian i fodloni gofynion cyfalaf gweithio byr-dymor
- **arian wrth gefn tymor hwy** - mae dros £5 miliwn wedi'i osod gyda *Rathbones Investment Management Limited* (Rathbones) ar gyfer buddsoddiad dewisol mewn cyfranddaliadau a restrir.

82 Mae arian a osodir yng ngofal Rathbones yn cael ei fuddsoddi mewn cronfa sy'n benodol ar gyfer elusennau, sy'n amodol ar gyfyngiadau buddsoddi moesegol.

83 Mae incwm o fuddsoddiadau yn y flwyddyn i'w briodoli i'r llog derbyniadwy o £1,290 o falansau cyfalaf gweithio byr-dymor a chronfeydd arian parod tymor canolig, ynghyd â llog a difidendau o £113,808 a dderbyniwyd o fuddsoddiadau asedau sefydlog.

84 Gwerth marchnad y buddsoddiadau yw £5.1 miliwn (2020: £4.3 miliwn). Y cynnydd net yng ngwerth y buddsoddiadau hyn ar 31 Gorffennaf 2021 oedd £678,888 (2020: colled o £337,220) gan adlewyrchu dychweliad marchnadoedd stoc ledled y byd i lefelau cynbandemig. Mae gwarged llog a derbyniadau difidend ar ôl talu costau rheoli, ynghyd ag enillion neu golledion net a wireddwyd, yn parhau i gael eu hail-fuddsoddi.

85 Mae'r dull hwn yn cael ei fonitro'n agos a'i reoli i sicrhau bod egwyddorion y polisi rheolaeth ariannol yn cael eu bodloni. O ystyried y cyfraddau llog sylfaenol isel ac amodau'r farchnad ar hyn o bryd, mae QAA o'r farn bod yr enillion ar eu harian parod a'u buddsoddiadau yn dderbyniol.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Strwythur, llywodraethiant a rheolaeth

86 Mae QAA yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant, ac yn elusen gofrestredig yng Nghymru, Lloegr, ar Alban. Pedwar aelod ein cwmni, ar 31 Gorffennaf 2021, oedd:

- *GuildHE* Cyf.
- Prifysgolion yr Alban
- Prifysgolion y DU
- Prifysgolion Cymru.

87 Pe bai'r sefydliad yn dirwyn i ben, mae atebolrwydd aelodau ein cwmni wedi'i gyfyngu i swm nad yw'n fwy na £1 yr aelod.

88 Cawsom ein sefydlu o dan Femorandwm Cymdeithasu ac rydym yn cael ein llywodraethu o dan ein Herthyglau Cymdeithasu, sy'n nodi ein cyfansoddiad a'n hamcanion. Ein hamcanion yw:

- hyrwyddo a chynnal ansawdd a safonau mewn addysg uwch yn y DU ac mewn mannau eraill
- gwella addysgu a dysgu, ynghyd â nodi a hyrwyddo arloesedd ac arfer da mewn addysgu a dysgu
- darparu gwybodaeth, a chyhoeddi adroddiadau ar ansawdd a safonau mewn addysg uwch yn y DU ac mewn mannau eraill
- darparu cyngor i lywodraethau, yn ôl y gofyn, ar gydnabyddiaeth cyrsiau Mynediad ac mewn perthynas â phob un neu unrhyw rai o'r amcanion uchod.

Llywodraethiant

89 Yn unol â'r arfer a argymhellir, comisiynodd QAA adolygiad llywodraethiant allanol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac a adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2019. Cytunwyd ar gamau gweithredu o'r adolygiad hwn ym mis Mawrth 2020; mae'r holl argymhellion a gymeradwywyd bellach wedi'u cwblhau. Y cam olaf oedd diwygio Erthyglau Cymdeithasu QAA, a newidiodd y modd y penodir rhai o aelodau'r Bwrdd. Fel rhan o ymrwymiad parhaus QAA i lywodraethiant ac arweinyddiaeth dda, cwblhaodd aelodau'r Bwrdd archwiliad o sgiliau'r Bwrdd.

90 Mae sgysiau blynyddol un-i-un yn parhau i gael eu cynnal rhwng y Cadeirydd ac aelodau unigol y Bwrdd.

91 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd hefyd wedi adolygu a chytuno ar:

- archwaeth QAA am risg a lefelau goddefiant
- polisiâu gan gynnwys: Polisi Chwythu'r Chwiban (a ailenydd bellach yn 'Ryddid i Siarad'); Gwrthdaro o ran Buddiannau - Aelodau'r Bwrdd; Materion a Neilltuwyd i'r Bwrdd; Polisi Iechyd a Diogelwch; Agwedd at Reoli Risg; a'r Polisi Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant
- cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol, y Pwyllgor DQB, a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Recriwtio a phenodi i'r Bwrdd

92 Mae ein cyfarwyddwyr hefyd yn ymddiriedolwyr y sefydliad at ddibenion y gyfraith elusennau. O dan ein Herthyglau Cymdeithasu, cyfeirir atynt fel y Bwrdd. O dan ofynion yr Erthyglau, mae 18 ymddiriedolwr yn cael eu penodi i'r Bwrdd fel a ganlyn.

- Maent yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd, yna'n gymwys am ail gyfnod o dair blynedd:
 - caiff pedwar aelod eu henwebu ar y cyd gan dri chorff cyllido ar gyfer addysg uwch yn y DU (Yr Adran Addysg (Gogledd Iwerddon), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a Chyngor Cyllido'r Alban). Hyd yma mae'r Swyddfa Myfyrwyr wedi gwrthod ymgymryd â'r hawliau enwebu oedd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr o'r blaen.
 - pedwar aelod wedi'u henwebu ar y cyd gan gyrrff cynrychioli addysg uwch y DU (*GuildHE*, Prifysgolion yr Alban, Prifysgolion y DU a Phrifysgolion Cymru)
 - un aelod wedi'i enwebu gan Gyngor Colegau'r DU a'i benodi gan y Bwrdd
 - chwe aelod annibynnol wedi'u penodi gan y Bwrdd
 - un aelod annibynnol wedi'i benodi gan y Bwrdd sydd, ar adeg y penodiad, yn ymwneud yn gyfangwbl neu i raddau helaeth â llywodraethiant neu reolaeth darparrydd addysg uwch amgen.
- Maent yn gwasanaethu am gyfnod o flwyddyn, yna'n gymwys am ail gyfnod o flwyddyn:
 - un aelod annibynnol wedi'i benodi gan y Bwrdd sydd, ar adeg ei benodi, yn fyfyrwr israddedig neu ôl-raddedig cofrestredig, yn swyddog myfyrwyr etholedig mewn undeb myfyrwyr, neu'n swyddog myfyrwyr etholedig gyda chorff cynrychioli myfyrwyr
 - un aelod wedi'i enwebu gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'i benodi gan y Bwrdd

93 Mae aelodaeth ein Bwrdd yn cynrychioli amrywioldeb addysg uwch y DU, gan gynnwys myfyrwyr, gyda chymysgedd eang o sgiliau a phrofiad. Mae gan y chwe aelod annibynnol o'r Bwrdd, yn unol â gofynion ein Herthyglau, brofiad mewn materion diwydiannol, masnachol neu ariannol, neu ymarfer proffesiynol. Rydym yn hysbysebu'n gyhoeddus i recriwtio ein haelodau annibynnol, yn dilyn asesiad o'r sgiliau sydd eu hangen arnom ar ein Bwrdd. Mae ein Pwyllgor Enwebiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol yn cynghori'r Bwrdd i sicrhau bod ein proses ddethol a recriwtio yn dryloyw ac yn deg.

94 Mae holl aelodau'r Bwrdd yn gyfarwyddwyr anweithredol. Maent yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol ac nid ydynt yn derbyn unrhyw dâl na buddion gan yr elusen. Mae'r treuliau a hawliwyd gan aelodau'r Bwrdd yn ystod 2020-21 wedi'u cynnwys yn nodyn 10 o'n datganiadau ariannol.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

95 Mae prif gyfrifoldebau ein Bwrdd yn cynnwys:

- cymeradwyo ein cennad a'n gweledigaeth strategol, cynlluniau strategol, cynlluniau blynyddol a chyllidebau, a dangosyddion perfformiad allweddol
- sicrhau sefydlu a monitro systemau rheolaeth ac atebolrwydd
- sicrhau bod prosesau ar waith i fonitro a gwerthuso ein perfformiad a'n heffeithiolrwydd
- penodi'r Prif Weithredwr a rhoi trefniadau addas ar waith ar gyfer monitro eu perfformiad
- gweithredu fel ein prif awdurdod ariannol a busnes
- sicrhau ein bod yn cadw llyfrau cyfrifon cywir
- cymeradwyo ein hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol
- cyfrifoldeb cyffredinol am ein hasedau, eiddo ac ystad.

96 Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo cyfrifoldeb am reoli'r elusen o ddydd i ddydd i'n Prif Weithredwr, yn unol â chynllun dirprwyo. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, mae'r Prif Weithredwr yn cael ei gynghori a'i gefnogi gan y tîm Gweithredol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ehangach.

Sefydlu aelodau'r Bwrdd

97 Mae aelodau newydd y Bwrdd yn derbyn y dogfennau canlynol, ac yn llofnodi datganiad i gadarnhau eu bod wedi eu hadolygu a'u deall:

- Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau: *The Essential Trustee* a'r *Charity Governance Code*
- Cyhoeddiad QAA: *Code of Best Practice for Members of the QAA Board* (gan gynnwys canllawiau ar ymddygiad moesegol, dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol, a llywodraethiant da).

98 Mae pob aelod newydd o'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu unigol o gyfarfodydd gyda'r Cadeirydd a staff uwch. Mae hyn yn eu cyflwyno i QAA, ein llywodraethiant, ein gweithrediadau a'n cynlluniau strategol. Mae ein Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol (Ysgrifennydd y Cwmni) a'n Swyddog Llywodraethiant ar gael i gynnig cymorth i aelodau'r Bwrdd i gyflawni eu dyletswyddau statudol, gan roi cyngor ac arweiniad yn ôl yr angen.

Gweithgareddau aelodau'r Bwrdd

99 Mae blwyddyn arferol i un o aelodau ein Bwrdd yn debygol o gynnwys:

- mynychu pedwar cyfarfod y Bwrdd (un diwrnod ar gyfer pob cyfarfod a diwrnod cwrdd-i-ffwrdd strategol ychwanegol)
- mynychu cynhadledd flynyddol QAA (dau ddiwrnod)
- mynychu cyfarfodydd pwyllgor a gweithgorau a drefnir at ddibenion penodol (yn ôl yr angen).

(Oherwydd cyfyngiadau Covid trwy gydol y flwyddyn, mae'r holl gyfarfodydd/digwyddiadau hyn wedi'u cynnal ar-lein.)

100 Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am faes penodol, ac yn gweithio gyda staff i ddarparu cyngor a chymorth sydd, yn ei dro, yn gwella dealltwriaeth a chraffu'r Bwrdd.

101 Yn ystod y flwyddyn 2020-21, roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd y Bwrdd ar gyfartaledd yn 99% (90% yn 2019-20). Roedd presenoldeb aelodau unigol o'r Bwrdd fel a ganlyn:

Enw	Presenoldeb ar gyfer 2020-21 (allan o bedwar cyfarfod)
Yr Athro Andrew Wathey	4
Yr Athro Simon Gaskell	4
Yr Athro Craig Mahoney	4
Mr Craig Watkins	4
Yr Athro David Jones	3
Ms Linda Duncan	4
Yr Athro Maria Hinfelaar	4
Ms Eve Alcock	4
Mr Oliver Johnson	4
Yr Athro Oliver Turnbull	4
Yr Athro Philip Wilson	4
Ms Sara Drake	4
Dr Vanessa Davies	4
Ms Hillary Gyebi-Ababio	4
Yr Athro John Sawkins	4
Yr Athro Sue Rigby	4
Ms Angela Joyce	4

Cyrhaeddwyd y cworwm penodol, fel y nodir yn ein Herthyglau Cymdeithasu, ym mhob cyfarfod.

Pwyllgorau'r Bwrdd

102 Roedd wyth o bwyllgorau'r Bwrdd ar waith yn ystod 2020-21. Mae cylch gorchwyl unigol ar gyfer pob pwyllgor wedi'u cyhoeddi yn ein Côd Arfer Gorau.

Materion Ilywodraethiant:

- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Enwebiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol

Cynghori:

- Pwyllgor Cynghori Strategol QAA Cymru
- Pwyllgor Cynghori Strategol QAA yr Alban
- Pwyllgor Cynghori Strategol Myfyrwyr

Gweithrediadau:

- Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thrwyddedu Cynlluniau Mynediad
- Pwyllgor Ymgynghorol ar Bwerau Dyfarnu Graddau
- Pwyllgor Corff Ansawdd Dynodedig

Bwrdd Cyfarwyddwyr QAA

103 Rhwng 1^{af} Awst 2020 a 31^{ain} Gorffennaf 2021, gwasanaethodd y canlynol fel cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr ar Fwrdd QAA:

Aelodau Annibynnol

Yr Athro Simon Gaskell (Cadeirydd)	Cyn Lywydd a Phrifathro, Prifysgol y Frenhines Mary, Llundain (penodwyd ym Mawrth 2019)
Dr Vanessa Davies	Cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Bwrdd Safonau'r Bar (Penodwyd yn Rhagfyr 2017)
Ms Sara Drake	Prif Weithredwr, ICSA (penodwyd yn Ionawr 2018)
Ms Linda Duncan (Trysorydd Anrhydeddus / Is-Gadeirydd)	Prif Weithredwr, <i>Blue Star Consortium</i> (penodwyd ym Mawrth 2017)
Mr Oliver Johnson	Cyn Brif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Bywyd Gwyllt Durrell (penodwyd yn Rhagfyr 2016)
Mr Craig Watkins	Prif Weithredwr a Rheolwr Gyfarwyddwr, <i>Kantar Public UK</i> (penodwyd yn Rhagfyr 2017)

Aelod annibynnol: darparwydd amgen

Mr Philip Wilson	Cyn-Gadeirydd, AU Annibynnol (penodwyd ym Mehefin 2017)
------------------	---

Aelod annibynnol: myfyriwr

Ms Eve Alcock	Cyn-Lywydd UM Prifysgol Caerfaddon (penodwyd ym Mehefin 2020)
---------------	---

Penodwyd ar y cyd gan *GuildHE Limited*, Prifysgolion yr Alban, Prifysgolion y DU a Phrifysgolion Cymru

Yr Athro Maria Hinfelaar	Is-Ganghellor, Prifysgol Glyndŵr (penodwyd ym Medi 2016)
Yr Athro Craig Mahoney	Is-Ganghellor Prifysgol Gorllewin yr Alban (penodwyd ym Mai 2016)
Yr Athro Andrew Wathey CBE	Is-Ganghellor, Prifysgol Northumbria (penodwyd ym Medi 2015)
Yr Athro Sue Rigby	Is-Ganghellor, Prifysgol Bath Spa (penodwyd ym mis Hydref 2019)

Penodwyd ar y cyd gan yr Adran Addysg (Gogledd Iwerddon), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido'r Alban).

Yr Athro Denise McAlister	Athro Emeritws, Prifysgol Ulster (penodwyd rhwng Hydref 2014 a Hydref 2020)
Yr Athro David Jones	Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Myfyrwyr), Athro Gwyddor Bioddeunyddiau, Prifysgol y Frenhines Belfast (penodwyd ym mis Hydref 2020)
Yr Athro John Sawkins	Dirprwy Bennaeth (Dysgu ac Addysgu), Athro Economeg, Prifysgol Herriot Watt (penodwyd ym mis Hydref 2019)
Yr Athro Oliver Turnbull	Dirprwy Is-Ganghellor (Addysgu a Dysgu), Athro Niwroseicoleg, Prifysgol Bangor (penodwyd ym Medi 2019)

Enwebwyd gan Gyngor Colegau'r DU

Ms Angela Joyce	Prif Weithredwr, Grŵp Colegau Swydd Warwick (penodwyd ym mis Hydref 2019)
-----------------	--

Enwebwyd gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr

Ms Hillary Gyebi-Ababio	Is-Lywydd (Addysg Uwch) UCM (penodwyd yng Ngorffennaf 2020)
-------------------------	--

Strwythur sefydliadol

104 Ein tîm Gweithredol yn 2020-21 oedd:

- Douglas Blackstock, Prif Weithredwr
- Caroline Blackburn, Cyfarwyddwr Cyllid
- Vicki Stott, Cyfarwyddwr Gweithrediadau

105 Mae'r tîm Gweithredol yn derbyn cymorth gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ehangach.

Cyflog a chydabyddiaeth ariannol

106 Mae ein Pwyllgor Enwebiadau a Chydabyddiaeth Ariannol yn cynghori'r Bwrdd ar berfformiad y Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol, cyflogau priodol, a thaliadau ymadael. Wrth roi cyngor ar osod cyflogau'r Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol, mae'r Pwyllgor yn ystyried y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r rolau, a'r cyflogau a delir yn y sectorau lle gellir dod o hyd i ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi o'r fath. Mae cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer swyddi gwahanol yn cael ei ddilysu'n wrthrychol, gan ddefnyddio cymaryddion y farchnad. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ddata o arolygon cyflog ar gyfer rolau cyffelyb o nifer o sectorau, gan gynnwys elusennau, addysg uwch a sefydliadau yn yr ardal leol. Dyfernir codiadau cyflog i'r holl staff yn amodol ar adolygiad perfformiad.

Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (CCC)

107 Mae QAA wedi ymrwymo i weithio mewn modd moesegol a chymdeithasol gyfrifol ar draws pob maes o'n busnes. Mae ein gwaith yn diogelu safonau ac yn gwella ansawdd addysg uwch y DU lle bynnag y'i darperir ledled y byd Mae ein dull busnes yn ystyried effaith ein gwaith ar yr amgylchedd, ein staff, ein cyflenwyr, cymunedau lleol, y sector addysg uwch, a chymdeithas yn ehangach. Mae ein polisi CCC diweddaraf (sy'n rhedeg o 2017) yn nodi ein hamcanion a'r gweithgareddau rydym yn ymwneud â nhw i'w cyflawni ledled y DU o ran y canlynol:

- cynnal agwedd foesegol a thryloyw at ein gwaith
- lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd
- cyfrannu at ddatblygiad ein cymunedau lleol
- parchu ein staff ac annog eu datblygiad.

108 Mae perfformiad ac effaith ein CCC yn cael eu monitro gan ein tîm Gweithredol a Phwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd.

Diogelu data

109 Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau y bu adroddiadau amdanynt yn ymwneud â data personol yn ystod 2020-21.

Gweithgareddau codi arian

110 Ni chynhaliodd yr elusen unrhyw weithgareddau codi arian yr oedd angen eu datgelu o dan A162A o *Ddeddf Elusennau 2011*.

Datganiad cydraddoldeb

111 Rydym wedi ymrwymo'n gryf i egwyddorion cydraddoldeb, fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i ansawdd. Rydym yn dangos hyn trwy ein polisiau mewnol ac arferion gwaith. Rydym hefyd yn ei wreiddio yn ein gwaith, gan fod cydraddoldeb yn rhan annatod o'n hymagwedd at sicrhau a gwella ansawdd. Mae cydraddoldeb yn elfen allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer profiad addysgol o ansawdd uchel a'r disgwyliadau sydd gan fyfyrwyr, yn gywir ddigon, gan ddarparwyr addysg uwch y DU.

Darparu budd cyhoeddus

112 Mae gennym ddyletswydd, o dan *Ddeddf Elusennau 2011*, i adrodd ar y budd cyhoeddus a ddarparwn. Mae ein hymddiriedolwyr yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus - y mae crynodeb ohonynt yn cael ei ddsbarthu i aelodau ein Bwrdd ar adeg eu penodi. Maent hefyd yn fodlon, trwy ein gwaith i gynorthwyo sector addysg uwch y DU, gan gynnwys helpu â darparu mynediad i addysg uwch i lawer o fyfyrwyr a gweithio'n fwy cyffredinol er budd myfyrwyr, bod ein gofynion o ran budd cyhoeddus wedi'u bodloni.

Perthynas â Phartïon Cysylltiedig

113 Mae is-gwmni QAA, *QAA Enterprises Limited* - cwmni preifat cyfyngedig trwy gyfranddaliadau, yn cael ei lywodraethu gan ei Erthyglau Cymdeithasu ei hun sy'n amlinellu ei gyfansoddiad. Amcanion *QAA Enterprises Limited* yw:

- darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys ymgynghoriaeth, hyfforddiant, ymchwil, nawdd, adolygu ac achredu, at ddiben cynhyrchu incwm i gynnal amcanion QAA yn unig.

- hyrwyddo a chynnal ansawdd a safonau mewn addysg uwch yn y DU ac mewn gwledydd tramor
- yr holl faterion y mae'r cwmni'n eu hystyried yn ategol, yn angenrheidiol neu'n gysylltiedig â'r amcanion hynny.

Prif risgiau ac ansicrwydd

114 Ein Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am ein hagwedd at reoli risg, a nodir yn ein polisi rheoli risg. Rydym yn cofnodi risgiau strategol yn ein cofrestr risg strategol, ac mae risgiau gweithredol yn cael eu cofnodi naill ai yn ein cofrestr risgiau gweithredol, neu yn y cofrestrau penodol ar gyfer y prosiectau neu'r gweithgareddau y mae'r risgiau'n ymwneud â hwy.

115 Caiff y gofrestr risg strategol ei hadolygu gan ein Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhob un o'i gyfarfodydd, ac anfonir papur ar reoli risg i bob cyfarfod y Bwrdd.

116 Yn 2020-21, diweddarwyd ein cofrestr risg strategol yn sylweddol, gan symud i fformat sy'n nodi'n gliriach lefelau cynhenid, gweddilliol a tharged y risg (gan adlewyrchu tebygolrwydd ac effaith). Cynyddodd nifer y risgiau a ystyriwyd ar y lefel strategol o bedwar i 12.

117 Roedd y risgiau a ystyriwyd yn sylweddol yn y cam gweddilliol (ar ôl lliniaru) yn cynnwys: y pwysau ariannol ar y sector ac effaith bosibl hyn ar fodel busnes QAA; penderfyniadau rheoleiddio neu bolisi a allai effeithio ar y Corff Ansawdd Dynodedig yn Lloegr; effaith datblygiadau polisi a rheoleiddio ar safle rhyngwladol sector y DU, yn enwedig yn Ewrop; a seiberddiogelwch.

118 Mae'r Bwrdd yn fodlon bod risgiau ac ansicrwydd yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.

Manylion atgyfeirio a gweinyddol

Enw cofrestredig	Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch
Enwau eraill a ddefnyddir gan y cwmni	QAA, QAA yr Alban
Rhif cofrestru'r Cwmni	03344784 (Cymru a Lloegr).
Rhif cofrestru'r Elusen	1062746 (Cymru a Lloegr). SC037786 (Yr Alban)
Prif swyddfa gofrestredig	Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Cyfeiriadau gweithredol	Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB 18 Bothwell Street, Glasgow, G2 6NL 15 Fetter Lane, Llundain, EC4A 1BW Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd CF10 5FL (ymadawyd 31 Gorffennaf 2021)
Ysgrifennydd y Cwmni	Tom Yates, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol
Uwch reolwyr (gydag awdurdod dirprwyedig)	Vicki Stott, Prif Weithredwr
Bancwyr	Banc HSBC ccc, The Cross, Caerloyw, GL1 2AP a Banc Lloyds ccc, 10 Gresham Street, Llundain, EC2V 7AE
Rheolwyr buddsoddi	<i>Rathbones Investment Management Limited</i> , 1 Curzon Street, Llundain, W1J 5FB Banc Preifat Barclays (Banc Barclays ccc), 40-42 Queen Square, Bryste, BS1 4QP
Cyfreithwyr	<i>Shakespeare Martineau</i> , No 1 Colmore Square, Birmingham, B4 6AA
Archwilydd annibynnol	Crowe UK LLP, 4 ^{ydd} Llawr, St James House, St James Square, Cheltenham, GL50 3PR

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r cyfarwyddwyr

119 Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr, gan gynnwys yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Hefyd y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig).

120 Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaniateir i'r ymddiriedolwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol a'r grŵp, ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant, y grŵp elusennol am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr:

- dewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu cymhwysu'n gyson
- cadw at y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau a ddatgelir ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

121 Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n gallu dangos ac esbonio trafodion y cwmni elusennol, datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â: *Deddf Cwmnïau 2006*; *Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005*; *Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006* (fel y'i diwygiwyd); a darpariaethau cyfansoddiad yr elusen. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a'r grŵp, ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Gwybodaeth i'r archwilydd

122 Yn achos pob un o'r personau sy'n gyfarwyddwyr y cwmni ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad hwn:

- hyd y gŵyr pob un o gyfarwyddwyr y cwmni ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol (gwybodaeth sydd ei hangen ar archwilydd y cwmni mewn cysylltiad â pharatoi'r adroddiad archwilio) nad yw archwilydd y cwmni'n ymwybodol ohoni
- mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd fel cyfarwyddwyr er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilydd y cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Archwilydd

123 Cytunwyd ar benderfyniad i ailbenodi *Crowe UK LLP* yn archwilydd i'r cwmni yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Rhagfyr 2021.

124 Cymeradwywyd yr Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 15^{fed} Rhagfyr 2021 ac fe'u llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

Yr Athro Simon Gaskell Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwr	Tom Yates Ysgrifennydd y Cwmni
---	---

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau ac Ymddiriedolwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (y 'rhiant gwmi elusennol') a'i is-gwmnïau (y 'grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31^{ain} Gorffennaf 2021 sy'n cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol y Grŵp, Mantolenni'r Grŵp a'r Cwmni, Datganiad Llif Arian y Grŵp a nodiadau i gyd-fynd â'r datganiadau ariannol, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r fframwaith ar gyfer adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol ac yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion ariannol y grŵp a'r cwmni elusennol ar 31^{ain} Gorffennaf 2021 ac o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r defnydd o adnoddau'r grŵp, gan gynnwys ei incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion *Deddf Cwmnïau 2006* a *Deddf Elusennau 2011*.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (UK)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall; hefyd, ac eithrio lle nodir yn benodol i'r gwrthwyneb yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o sicrwydd ynglŷn â hynny.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu a yw'n ymddangos bod y wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu'r hyn sy'n ymddangos yn gamddatganiadau, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod ein harchwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a baratowyd at ddibenion y gyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- roedd adroddiad y cyfarwyddwyr a oedd wedi'i gynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r grŵp a'r cwmni elusennol a'u hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae *Deddf Cwmnïau 2006* yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chi amdanynt os, yn ein barn ni:

- nid yw'r rhiant-gwmni elusennol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nid yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni elusennol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai datgeliadau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol ymddiriedolwyr sy'n ofynnol dan y gyfraith yn cael eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 30, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion y gyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol. Rhaid iddynt hefyd fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac ar gyfer y fath reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn barnu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol, oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Mae angen cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r cwmni a'r grŵp elusennol yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar bennu symiau perthnasol a datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn oedd *Deddf Cwmnïau 2006*; *Deddf Elusennau 2011*; Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008; Safon Adroddiadau Ariannol 102 (FRS 102); a'r SORP Elusennau (102) (a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019). Yn ogystal, ystyriwyd darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gallai cydymffurfiaeth â hwy fod yn sylfaenol i allu'r elusen i weithredu neu i osgoi cosb berthnasol. Ystyriwyd hefyd y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn yr elusen a'r grŵp ar gyfer twyll. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau'r DU oedd *Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017* (HERA); Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR); deddfwriaeth lechyd a Diogelwch; a deddfwriaeth cyflogaeth.

Nodwyd gennym y byddai'r risg fwyaf o effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol yn sgil afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn perthyn i amseriad cydnabod incwm a diystyru rheolaethau gan reolwyr. Cynlluniwyd ein gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hyn ynghylch incwm. Mewn perthynas â rheolwyr yn diystyru rheolaethau, cynhaliom ymholiadau ymhlith rheolwyr am eu gwaith eu hunain i nodi ac asesu risgiau afreoleidd-dra, profi sampl ar gyhoeddi cyfnodolion, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarnau, adolygu gohebiaeth reoleiddiol â'r Comisiwn Elusennau, CThEM a rheoleiddwyr eraill gan gynnwys OfS ac OSCAR, yn ogystal â darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid unrhyw archwiliad, mae yna risg na ellir ei hosgoi na fyddwn efallai wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfiaeth ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth â'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

Mae'r cyfyngiadau cynhenid hyn yn arbennig o arwyddocaol yn achos camddatganiad o ganlyniad i dwyll, gan y gallai hyn gynnwys cynlluniau soffistigedig sydd wedi'u cynllunio i osgoi cael eu canfod, gan gynnwys methiant bwriadol i gofnodi trafodion, cydgyllwynio neu ddarparu gwybodaeth gamarweiniol yn fwriadol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n Hadroddiad Archwilio.

Defnydd o'n hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, rhan 16 o *Ddeddf Cwmnïau 2006*. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud er mwyn i ni allu datgan i aelodau ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilio ariannol ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r cwmni elusennol, aelodau'r cwmni elusennol fel corff ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

[Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i lofnodi eto]

Tara Westcott
Uwch Archwilydd Statudol

Dros ac ar ran

Crowe UK LLP
Archwilydd Statudol
St James House
St James Square
Cheltenham
GL50 3PR

Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol (gan gynnwys cyfrif incwm a gwariant cyfunol) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31^{ain} Gorffennaf 2021

	Nodiadau	2021	2020
		£	£
		Arian	Arian
		anghyfyngedig	anghyfyngedig
Incwm o:			
Gweithgareddau elusennol	5	8,178,546	9,066,762
Gweithgareddau masnachol eraill	3	6,000	-
Buddsoddiadau:	4	115,098	160,814
Cyfanswm Incwm		8,299,644	9,227,576
Gwariant ar:			
Costau masnachol codi arian		311	1,607
Costau rheoli buddsoddiadau		9,602	6,216
Codi arian		9,913	7,823
Gweithgareddau elusennol	6 7	8,272,592	8,141,238
Cyfanswm y gwariant		8,282,505	8,149,061
Enillion / (colledion) net ar fuddsoddiadau		678,889	(337,220)
Incwm net a symudiad net mewn cronfeydd ariannol am y flwyddyn	8	696,028	741,295
Cysoni arian			
Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen		4,039,473	3,298,178
Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen	22	4,735,501	4,039,473

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 65 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mantolenni cyfrifon ar 31^{ain} Gorffennaf 2021 (Rhif y cwmni: 03344784)

	Nodiadau	Grŵp		Elusen	
		2021	2020	2021	2020
		£	£	£	£
Asedau sefydlog:					
Asedau diriaethol	12	380,519	610,538	380,519	610,538
Buddsoddiadau	14	5,083,386	4,300,291	5,083,387	4,300,292
Cyfanswm asedau sefydlog		5,463,905	4,910,829	5,463,906	4,910,830
Asedau cyfredol:					
Dyledwyr	15	1,878,745	721,086	1,933,518	778,450
Arian yn y banc ac mewn llaw		4,245,205	3,288,534	4,189,157	3,230,256
Cyfanswm asedau presennol		6,123,950	4,009,620	6,122,675	4,008,706
Rhwymdeigaethau:					
Credydwyr: symiau sydd i'w talu o fewn un flwyddyn	16	(5,389,031)	(3,537,345)	(5,388,431)	(3,534,825)
Asedau net cyfredol		734,919	472,275	734,244	473,881
Cyfanswm asedau ar ôl talu rhwymedigaethau cyfredol					
		6,198,824	5,383,104	6,198,150	5,384,711
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau	20	(155,691)	(142,277)	(155,691)	(142,277)
Rhwymedigaeth ar gyfer darpariaeth pensiynau	21	(1,307,632)	(1,201,354)	(1,307,632)	(1,201,354)
Cyfanswm asedau net		4,735,501	4,039,473	4,734,827	4,041,080
Arian y grŵp a'r elusen:					
Arian dynodedig	22	983,694	407,674	983,694	383,694
Arian cyffredinol	22	3,751,807	3,631,798	3,751,113	3,657,386
Cyfanswm arian ar 31 Gorffennaf 2021		4,735,501	4,039,473	4,734,827	4,041,080

Y gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol yr ymdriniwyd â hi yn natganiad ariannol y rhiant elusen oedd £693,500 (2020: £762,946).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 65 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd yr adroddiadau strategol gan y Bwrdd; fe'u hawdurdodwyd ar 15^{fed} Rhagfyr 2021, ac fe'u llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

Yr Athro Simon Gaskell
Cadeirydd Bwrdd yr Cyfarwyddwr

Datganiad llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

	Nodiadau	Grŵp		Elusen	
		2021	2020	2021	2020
		£	£	£	£
Llif arian o weithgareddau gweithredol:					
Arian parod net a ddarparwyd trwy weithgareddau gweithredol	25	986,231	269,736	988,461	291,386
Llif arian o weithgareddau buddsoddi:					
Incwm o fuddsoddiadau		115,098	160,814	115,098	160,814
Elw o werthu buddsoddiadau		5,238	3,752	5,238	3,752
Prynu buddsoddiadau		(109,418)	(151,907)	(109,418)	(151,907)
Prynu asedau sefydlog diriaethol		(40,452)	(9,404)	(40,452)	(9,404)
Arian parod net a ddefnyddiwyd ar gyfer / a ddarparwyd trwy weithgareddau buddsoddi		(29,534)	3,255	(29,534)	3,255
Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y flwyddyn		956,697	272,991	958,927	294,641
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn		3,288,544	3,015,553	3,230,266	2,935,625
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	26	4,245,241	3,288,544	4,189,193	3,230,266

Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 65 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Nodiadau ar gyfer y datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

1 Statws cyfreithiol

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant. Mae QAA wedi ei chofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (rhif cofrestredig: 1062746) a Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif cofrestredig: SC037786).

Mae'r elusen wedi'i hymgorffori fel cwmni cyfyngedig trwy warant gyda Thŷ'r Cwmnïau yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestredig: 03344784). Prif swyddfa gofrestredig y sefydliad yw Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB.

2 Polisiâu cyfrifyddu

Mae'r prif bolisiâu cyfrifyddu, dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrifon a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:

a Sail y paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â gofynion Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion Cymeradwy sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon ar gyfer Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (a ddaeth i rym 1 Ionawr 2015) - (SORP Elusennau (FRS 102)), y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a *Deddf Cwmnïau 2006*.

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol. Mae QAA yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i ddechrau ar eu cost hanesyddol neu werth trafodion, oni nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifyddu perthnasol.

b Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Fel rhan o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr o ran priodoldeb mabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae ystod o senarios wedi'u hystyried. Mae'r tybiaethau a fodwyd yn seiliedig ar amcangyfrif o effaith bosibl newidiadau sy'n hysbys yn y sector ac unrhyw effaith yn sgil cyfyngiadau a rheoliadau COVID-19, ynghyd â'n hymatebion arfaethedig dros y 18 mis nesaf.

Ar sail yr adolygiad hwn, paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn seiliedig ar Fusnes Gweithredol, y mae'r Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn briodol ar sail canlyniadau'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 a rhagolygon a rhagamcanion llif arian a baratowyd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf, 2023. Mae'r rhagamcanion llif arian yn dangos y bydd y Grŵp yn gallu bodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus a bydd yn gallu gweithredu o fewn y cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd sylweddol ynghylch hyfywedd ariannol y cwmni elusennol.

c Datganiadau ariannol y grŵp

Mae'r datganiadau ariannol yn cyfuno canlyniadau'r elusen a'r is-gwmni sydd ym mherchenogaeth lwyr QAA fesul llinell. Paratwir y datganiadau ariannol mewn sterling, sef arian cyfred gweithredol y grŵp. Nid oes Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA), a chyfrif incwm a gwariant ar wahân, ar gyfer yr elusen ei hun yn cael eu cyflwyno oherwydd

bod yr elusen wedi manteisio ar yr eithriadau a roddir gan adran 408 o *Ddeddf Cwmnïau 2006*. Fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd), mae datganiad llif arian ar gyfer yr elusen wedi'i gynnwys.

2 Polisïau cyfrifyddu (parhad)

ch Dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrifon

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybjaethau sy'n effeithio ar y symiau a adroddir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen a'r symiau a nodir ar gyfer refeniw a gwariant yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae natur yr amcangyfrifon yn golygu y gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd wrth amcangyfrif sydd wedi cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol wedi'u cynnwys gyda'r polisi cyfrifyddu perthnasol isod.

Mae'r tâl dibrisiant blynyddol ar gyfer yr asedau diriaethol yn sensitif i newidiadau ym mywydau economaidd defnyddiol amcangyfrifedig a gwerthoedd gweddilliol yr asedau. Mae'r bywydau economaidd defnyddiol a'r gwerthoedd gweddilliol yn cael eu hailasesu'n flynyddol. Cânt eu diwygio pan fo angen i adlewyrchu amcangyfrifon cyfredol, yn seiliedig ar ddatblygiadau technolegol, buddsoddiadau yn y dyfodol, defnydd economaidd a chyflwr yr asedau. Gweler nodyn 12 ar gyfer swm cario'r asedau diriaethol.

Mae'r diffyg ariannol yn y cynllun buddion diffiniedig yn cael ei gyfrifo trwy amcangyfrif gwerth presennol net y rhwymedigaeth i wneud cyfraniadau yn y dyfodol sydd eu hangen i ariannu'r cynllun adfer. Wrth gyfrifo maint y rhwymedigaeth hon, mae'r cyfarwyddwyr wedi gwneud amcangyfrifon ar gyfer newidiadau mewn staffio yn y dyfodol, newidiadau cyflog a chyfraddau disgownt.

d Cyfrifo arian y gronfa

Arian anghyfyngedig yw adnoddau a dderbynnir neu a gynhyrchir ar gyfer gwariant ar amcanion cyffredinol QAA. Arian dynodedig yw arian anghyfyngedig yr elusen sydd wedi'i neilltuo gan yr ymddiriedolwyr i gyllido gweithgareddau arbennig yr elusen yn y dyfodol.

dd Incwm

Ariennir gweithgareddau QAA yn bennaf drwy gontractau gyda chyrrff cyllido addysg uwch a llywodraethau'r DU, a thrwy danysgrifiadau gan sefydliadau addysg uwch; nid yw'n creu incwm trwy godi arian. Mae'r holl incwm wedi'i gyfrifo ar gyfer pan fydd gan yr elusen hawl i'r arian; mae unrhyw faterion perfformiad sy'n gysylltiedig â'r eitem(au) incwm wedi'u bodloni, felly mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

e Gwariant a sail dyrannu costau

Mae'r holl wariant wedi'i gyfrifo ar sail croniadau ac wedi'i gofnodi fel y gellir ei briodoli i un o ddau gategori – 'codi arian' (cost rheoli buddsoddiadau'r elusen a chostau masnachol codi arian gan yr is-gwmni) a 'gweithgareddau elusennol' fel y dangosir yn y SOFA. Rhennir y gweithgareddau elusennol ymhellach i dri nod strategol yr elusen. O fewn gweithgareddau elusennol, cyfeirir at y gwariant fel 'costau uniongyrchol' neu 'gostau cynnal' fel y dangosir yn y nodyn 'cyfanswm gwariant elusennol'.

2 Polisiâu cyfrifyddu (parhad)

Dyrannwyd niferoedd staff a chostau naill ai:

- yn uniongyrchol i un neu fwy o'r tri gweithgaredd elusennol fel 'costau uniongyrchol', neu
- yn uniongyrchol i lywodraethiant fel 'costau cynnal', neu
- wedi'u neilltuo i'r tri gweithgaredd elusennol a llywodraethiant fel 'costau cynnal' gan ddefnyddio'r niferoedd staff sydd eisoes wedi'u priodoli i'r gweithgareddau hynny.

Dyrannwyd costau nad oeddent yn ymwneud â chyflog naill ai:

- yn uniongyrchol i un neu fwy o'r tri gweithgaredd elusennol fel 'costau uniongyrchol', neu
- yn uniongyrchol i lywodraethiant fel 'costau uniongyrchol' neu 'gostau cynnal', neu
- wedi'u neilltuo i'r tri gweithgaredd elusennol a llywodraethiant fel 'costau cynnal' gan ddefnyddio'r niferoedd staff sydd eisoes wedi'u priodoli i'r gweithgareddau hynny.

Mae costau llywodraethiant yn cynnwys costau bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol megis archwiliad ariannol, cyfarfodydd a threuliau ymddiriedolwyr, a ffioedd cyfreithiol. Mae'r costau staff a swyddfa sy'n gysylltiedig â chostau o'r fath wedi'u cynnwys yn y costau cynnal. Yna caiff costau llywodraethiant eu dosrannu i un o'r tri gweithgaredd elusennol.

f Prydlesi gweithredol

Mae rhenti sy'n berthnasol i brydlesi gweithredol yn cael eu codi ar y SOFA dros y cyfnod y mae'r gost yn daladwy ar sail llinell-syth dros gyfnod y brydles.

ff Costau ailstrwythuro a diswyddo

Mae costau ailstrwythuro yn cael eu cydnabod pan fydd gan yr Elusen rwymedigaeth gyfreithiol ar y dyddiad y caiff yr adroddiad ei lunio i gynnal yr ailstrwythuro. Polisi'r ymddiriedolwyr yw lleihau effaith newid sefydliadol. Dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol y bydd taliadau diswyddo yn sgil terfynu swyddi'n digwydd, a chânt eu cyfrifo ar sail croniadau pan fydd ymrwymiad i derfynu swydd wedi'i wneud.

g Asedau sefydlog diriaethol a dibrisiant

Darperir dibrisiant ar asedau sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost pob ased mewn rhandaliadau cyfartal dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

Mae'r cyfraddau dibrisiant fel a ganlyn:

- offer cyfrifiadurol: tair blynedd
- meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol: pum mlynedd
- dodrefn ac offer swyddfa: pum mlynedd
- gwelliannau dan y brydles: dros gyfnod y brydles sy'n weddill.

Mae cost meddalwedd cyfrifiadurol safonol yn cael ei ddileu i'r SOFA wrth iddo gael ei dalu. Mae meddalwedd sydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer QAA neu a brynwyd fel rhan o brosiect cyfalaf mwy wedi'i gyfalafu a'i ddileu dros gyfnod o bum mlynedd. Nid yw asedau sy'n costio llai na £2,000 yn cael eu cyfalafu oni bai eu bod yn rhan o brosiect cyfalaf mwy.

2 Polisïau cyfrifyddu (parhad)

ng Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau rhestredig ar werth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn, a chofnodir unrhyw symudiadau fel enillion neu golledion heb eu gwireddu yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol. Mae gwargedion neu ddiffygion ar fuddsoddiadau a werthwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrifo trwy gymharu enillion net gyda gwerth y farchnad ar ddechrau'r flwyddyn, a chânt eu cofnodi fel enillion neu golledion wedi'u gwireddu yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol. Mae buddsoddiadau sydd heb eu rhestru wedi'u cynnwys ar eu pris gwreiddiol.

h Dyledwyr

Mae dyledwyr masnachol, dyledwyr eraill ac incwm cronedig wedi'u rhestru ar swm y setliad sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ddisgownt masnachol. Caiff rhagdaliadau eu prisio ar y swm a dalwyd ymlaen llaw net o unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

i Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac arian a roddwyd yng ngofal sefydliadau ariannol.

j Arian tramor

Mae trafodion mewn arian tramor yn cael eu cofnodi i ddechrau yn arian cyfred gweithredol yr endid ar y gyfradd gyfnewid oedd mewn grym ar ddyddiad y trafodiad. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol mewn arian tramor yn cael eu hail-drosi ar y gyfradd gyfnewid oedd mewn grym ar ddyddiad y fantolen. Mae'r holl wahaniaethau i'w gweld yn y datganiad o weithgaredd ariannol.

I Credydwyr a darpariaethau

Mae credydwyr a darpariaethau yn cael eu cydnabod pan fo gan yr elusen ymrwymiad cyfreithiol neu ymarferol presennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol; mae'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaethau; a gellir amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Caiff darpariaethau eu mesur yn ôl gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd ei angen i setlo'r ymrwymiad.

Mae QAA yn darparu trefniadau gwyliau â thâl i'w gweithwyr ac yn cydnabod y gost yn y cyfnod pan gronnir y buddiant. Gwneir darpariaeth ar gyfer cost gwyliau a gronnwyd ond nas cymerwyd.

II Darpariaethau ariannol sylfaenol

Mae gan QAA asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol a ystyrir yn offerynnau ariannol sylfaenol. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth y trafodiad ac yna'n cael eu mesur yn ôl eu gwerth setlo (gweler nodyn 18).

2 Polisiâu cyfrifyddu (parhad)

m Pensiynau

Cynlluniau buddion diffiniedig

Mae QAA yn cymryd rhan yng Nghynllun Budd-daliadau Ymddeoliad y Prifysgolion (USS) a'r Trefniadau Pensiwn ar gyfer Prifysgol Llundain (SAUL). Trwy gydol y cyfnodau presennol a blaenorol, roedd y ddau gynllun yn gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig yn unig ac wedi'u contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P) tan 31 Mawrth 2016. Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, nid yw asedau'r cynllun wedi'u neilltuo i sefydliadau unigol, a gosodir cyfradd cyfraniadau ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae QAA felly yn agored i risgiau actiaraidd sy'n gysylltiedig â gweithwyr mewn sefydliadau eraill, ac nid yw'n gallu nodi ei chyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail gyson a rhesymol. O'r herwydd, fel sy'n ofynnol dan Adran 28 o FRS 102, mae 'Buddiannau cyflogeion', yn berthnasol i'r cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad, mae'r swm a godir ar y SOFA yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun parthed y cyfnod cyfrifyddu. Gan fod QAA wedi ymrwmo i gytundebau (y Cynlluniau Adfer sy'n pennu sut y bydd pob cyflogwr o fewn pob cynllun yn ariannu'r diffyg cyffredinol sy'n perthyn iddyn nhw ym mhob cynllun), mae QAA yn cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n codi o'r cytundeb, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r diffyg, a'r gost o ganlyniad i hynny, yn y SOFA.

Dyfarniadau cyfrifyddu critigol

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng Cynllun Grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae Cynllun Grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredin, fel arfer gyda chyflogwr yn ei noddi. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredin ac mae'n cynrychioli (fel arfer) cynllun ar gyfer y diwydiant cyfan fel y rhai a ddarperir gan USS a SAUL. Mae cyfrifo ar gyfer cynllun aml-gyflogwr lle mae'r cyflogwr wedi ymrwmo i gytundeb gyda'r cynllun sy'n pennu sut y bydd y cyflogwr yn ariannu diffyg yn arwain at gydnabod ymrywmiad ar gyfer y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n deillio o'r cytundeb (cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r diffyg) a chydnabyddir y gost o ganlyniad i hynny ar ffurf elw neu golled. Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y cynlluniau a ddarperir gan USS a SAUL yn bodloni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr, ac felly wedi cydnabod gwerth teg gostyngol y cyfraniadau cytundebol o dan y cynlluniau ariannu sy'n bodoli ar ddyddiad y fantolen.

Cynlluniau buddion diffiniedig

Mae QAA hefyd yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig, ac mae'r swm a godir ar y cyfrif incwm a gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

3 Incwm o weithgareddau masnachol eraill

Crynodeb o sefyllfa ariannol yr is-gwmni masnachu sydd mewn perchenogaeth lwyr QAA, QAA Enterprises Limited yw:

	2021	2020
	£	£
Trosiant	6,000	-
Cost gwerthu a chostau gweinyddol	(3,721)	(21,651)
Elw / (colled) net am y flwyddyn	2,279	(21,651)
dau a rhwymedigaethau'r is-gwmni oedd:		
Asedau cyfredol	62,047	58,277
Rhwymedigaethau cyfredol	(61,374)	(59,884)
Cyfanswm net (rhwymedigaethau) / asedau	673	(1,607)

4 Incwm o fuddsoddiadau

Mae incwm buddsoddi'r grŵp am y flwyddyn yn cael ei ddadansoddi fesul ffynhonnell isod:

	2021	2020
	£	£
Incwm difidend a llog o fuddsoddiadau a ddyfynnwyd	113,808	147,788
Llog o arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc â llog	1,290	13,026
Cyfanswm yr incwm buddsoddi am y flwyddyn	115,098	160,814

5 Incwm o weithgareddau elusennol

	Nodyn	2021	2020
		£	£
Aelodaethau		2,852,151	2,792,997
Rheoleiddio		2,739,981	4,080,994
Contractau gyda chyrrff cyllido addysg uwch		1,377,545	1,087,505
Darparwyr addysg uwch amgen		383,524	194,775
Contractau eraill ac incwm cysylltiedig		825,345	910,491
Cyfanswm Incwm o weithgareddau elusennol		8,178,546	9,066,762
Dadansoddiad fesul ffynhonnell:			
Cynghorau cyllido addysg uwch y DU		1,199,731	1,244,784
Sefydliadau addysg uwch y DU		3,499,732	4,137,983
Sefydliadau addysg bellach y DU		2,868,926	387,841
Darparwyr addysg uwch amgen y DU		1,163,854	1,138,705
Arall		1,316,191	1,071,709
		10,048,434	7,981,022
Incwm rhyddhau wedi'i ohirio yn y blynyddoedd blaenorol	16	2,398,870	3,409,859
Incwm gohirio a dderbyniwyd yn y flwyddyn gyfredol	16	(4,268,758)	(2,324,119)
Cyfanswm Incwm o weithgareddau elusennol		8,178,546	9,066,762

6 Gwariant ar weithgareddau elusennol

	Nodyn	2021 £	*2020 ailddatgan £
Y corff annibynnol arbenigol dibynadwy sy'n cynorthwyo gwelliant a rheoleiddio addysg uwch ar draws gwledydd y DU		5,273,017	6,434,976
Mae'n darparu cyngor arbenigol sy'n sicrhau safonau ac yn cynorthwyo gwella ansawdd		1,935,459	1,586,209
Mae'n cryfhau enw da byd-eang addysg uwch y DU		957,838	1,238,605
Cyfanswm gwariant ar weithgareddau elusennol cyn costau ailstrwythuro a darpariaeth pensiwn		8,166,314	9,259,791
Costau ailstrwythuro		-	148,705
Darpariaeth pensiwn - cyfraniadau diffyg (wedi'u cynnwys uchod)	21	(59,723)	(48,395)
Codwyd / (credyd) i'r SOFA - newid mewn cyfraniadau diffyg disgwylidig yn y dyfodol		134,886	(1,279,098)
Darpariaeth pensiwn - dad-ddirwyn y disgownt	21	31,115	60,234
Cyfanswm gwariant ar weithgareddau elusennol		8,272,592	8,141,238

7 Dadansoddiad o wariant ar weithgareddau elusennol

	Gweithgareddau elusennol			Llywodraethiant	Cyfanswm gwariant ar weithgareddau elusennol	
	Y corff annibynnol arbenigol dibynadwy sy'n cynorthwyo gwelliant a rheoleiddio addysg uwch ar draws gwledydd y DU	Darparu cyngor arbenigol sy'n sicrhau safonau ac yn cynorthwyo gwella ansawdd	Cryfhau enw da byd-eang addysg uwch y DU		2021	2020*
	£	£	£	£	£	£
Costau uniongyrchol						
Costau staffio	2,074,438	1,030,570	356,349		3,461,357	3,527,704
Costau adolygu eraill	882,058	81,025	105,319		1,068,402	1,331,799
Costau uniongyrchol eraill	148,448	138,329	52,943		339,720	404,465
Cyfanswm costau uniongyrchol	3,104,944	1,249,924	514,611		4,869,479	5,263,968
Costau cynnal						
Costau staff	791,970	223,847	149,105	212,755	1,377,677	1,717,715
Costau adeiladau a swyddfeydd	406,693	187,725	86,286	-	680,704	671,478
TG	533,609	90,261	81,460	-	705,330	705,886
Cyllid	589	24	439	-	1,052	130,114
Dibrisiant	155,661	74,608	40,202	-	270,471	341,121
Costau AD a DS	84,051	50,254	47,652	-	181,957	177,967
Arall	32,157	9,674	6,264	-	48,095	151,242
Llywodraethiant**	-	-	-	31,549	31,549	100,568
Cyfanswm costau cymorth	2,004,730	636,393	411,408	244,304	3,296,835	3,996,091
Ailddyrannu Llywodraethiant	163,343	49,141	31,820	(244,304)	-	-
Cyfanswm costau cynnal fesul amcan	2,168,073	685,534	443,228	-	3,296,835	3,996,091
Gwariant ar weithgareddau elusennol cyn ailstrwythuro a darpariaeth pensiwn	5,273,017	1,935,458	957,839		8,166,314	9,259,791
Ailstrwythuro - costau staffio	-	-	-		-	148,705
Darpariaeth pensiwn - cyfraniadau diffyg net	-	-	-		106,278	(1,267,258)
Darpariaeth pensiwn - dad-ddirwyn y disgownt	-	-	-		-	-
Cyfanswm gwariant elusennol	5,273,017	1,935,458	957,839		8,272,592	8,141,238

* Lansiwyd strategaeth newydd ym mis Awst 2020 ac mae gwariant ar gyfer y flwyddyn flaenorol 2019-20 wedi'i ailddatgan

yn erbyn pob un o'r nodau strategol newydd

** Yn cynnwys cost cyfarfodydd y Bwrdd a ffioedd archwilio

8 Incwm / (gwariant) net am y flwyddyn ariannol

	I'w nodi	2021 £	2020 £
Nodir incwm / (gwariant) net ar ôl codi tâl/(derbyn):		696,028	741,295
Archwilwyr allanol - gwasanaethau archwilio		21,600	22,200
- gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio		12,505	13,080
Archwilwyr mewnol - gwasanaethau archwilio		9,800	24,179
Yswiriant Indemniad Proffesiynol		59,704	52,140
Asedau sefydlog diriaethol			
Dibrisiant		270,471	341,121
Prydlesi gweithredol			
Tir ac adeiladau		283,821	298,248
Arall		1,880	22,082
Costau cyfnewid arian tramor / (enillion)		53	(5,664)
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr	23	739,390	682,285

9 Dadansoddiad o gostau staff

	2021	*2020 Wedi'i ailddatgan
	£	£
Cyfanswm costau staff oedd:		
Cyflogau	3,988,621	3,876,849
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr	419,913	404,346
Cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy	739,390	682,285
	<u>5,147,924</u>	4,963,480
Staff asiantaethau cyflogi	5,378	334,519
Cyfanswm costau staff cyn ailstrwythuro ac addasiadau mewn rhwymedigaethau darpariaeth pensiwn	5,153,302	5,297,999
Costau ailstrwythuro	-	148,705
Cyfanswm costau staff ar ôl ailstrwythuro	<u>5,153,302</u>	5,446,704
Cyfraniadau diffyg sy'n daladwy yn y flwyddyn (wedi'u cynnwys yn y cyfraniadau a dalwyd uchod)	(59,723)	(48,395)
Cynnydd mewn cyfraniadau diffyg disgwylidig yn y dyfodol	134,886	(1,279,098)
Cyfanswm costau staff a godwyd ar y SOFA	<u>5,228,465</u>	4,119,211

*Mae ffigurau pensiwn y flwyddyn flaenorol wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r rhaniad cywir yn y nodyn costau staff

9 Dadansoddiad o gostau staff (parhad)

	2021	2020 *Wedi'i ailddatgan
	Nifer	Nifer
Roedd nifer cyfartalog y gweithwyr, a gyfrifwyd ar sail gyfwerth â llawn-amser fel a ganlyn:		
Y corff annibynnol arbenigol dibynadwy sy'n cynorthwyo gwelliant a rheoleiddio addysg uwch ar draws gwledydd amrywiol y DU	53	48
Darparu cyngor arbenigol sy'n sicrhau safonau ac yn cynorthwyo gwella ansawdd Cryfhau enw da byd-eang addysg uwch y DU	25	21
	13	9
Cyfanswm nifer cyfartalog y gweithwyr ar sail gyfwerth â llawn-amser	91	78
*Lansiwyd strategaeth newydd ym mis Awst 2020 ac mae niferoedd y staff wedi'u hailddatgan yn erbyn pob un o'r nodau strategol newydd.		
Cyfanswm nifer cyfartalog y gweithwyr ar sail cyfrif pennau	105	102

Roedd nifer y gweithwyr yr oedd eu henillion fel y'u diffinnir at ddibenion treth yn fwy na £60,000 fel a ganlyn:

	2021 Nifer	2020 Nifer
£160,000 - £169,999	1	1
£100,000 - £109,999	1	-
£90,000 - £99,999	-	1
£80,000 - £89,999	1	2
£70,000 - £79,999	4	1
£60,000 - £69,999	2	3

Roedd pob gweithwyr a oedd yn ennill mwy na £60,000 yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion (gweler nodyn 23). Y cyfanswm a dalwyd i'r cynllun ar gyfer y gweithwyr hyn oedd:

	2021 £	2020 £
Cyfraniad y cyflogwr	163,937	134,334

10 Cyflogau cyfarwyddwyr a phersonél rheoli allweddol

Mae personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r uwch staff gweithredol (gweler Adroddiad y Cyfarwyddwyr uchod).

Ni thalwyd unrhyw gyflog i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn. Ni thalwyd treuliau i unrhyw ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn (2020: 21 o Ymddiriedolwr, £6,180). Roedd y treuliau a dalwyd yn ymwneud â theithio a chostau achlysurol yn unig.

Cyfanswm buddion gweithwyr (gan gynnwys cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr a chyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr) a dderbyniwyd gan uwch staff gweithredol yr elusen a'r grŵp oedd £473,096 (2020: £437,874).

Yr aelod staff sy'n derbyn y cyflog uchaf yw'r Prif Weithredwr, a'i dâl a'i fuddion, gan gynnwys cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr a chyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr yn ystod y flwyddyn oedd £214,726 (2020: £216,901).

Yn ystod y flwyddyn, prynodd QAA Yswiriant Atebolrwydd Cyfarwyddwyr a Swyddogion (a oedd yn cynnwys Yswiriant Indemniad Ymddiriedolwyr).

11 Trethiant

O dan ran II CTA 2010 nid yw'r elusen yn agored i dreth ar ei gweithgareddau elusenol. Bydd elw'r is-gwmni anelusenol fel arfer yn cael ei roi â chymorth rhodd i'r rhiant elusen. Felly, yn gyffredinol nid yw'r grŵp yn gorfod talu unrhyw Dreth Gorfforaethol ar ei weithgareddau masnachu.

12 Asedau sefydlog diriaethol

Grŵp ac elusen

	Gwelliannau Prydles	**Offer cyfrifiaduro l	Dodrefn ac offer arall	Cyfansw m
	£	£	£	£
Cost				
dydd Sadwrn, 1 ^{af} Awst 2020	1,280,210	4,210,371	546,547	6,037,128
Ychwanegiadau	-	40,453	-	40,453
31^{ain} Gorffennaf 2021	1,280,210	4,250,824	546,547	6,077,581
Dibrisiant				
Ar 1 ^{af} Awst 2020	879,005	4,002,890	544,695	5,426,590
Codi tâl gyfer y flwyddyn	126,997	141,623	1,852	270,472
31^{ain} Gorffennaf 2021	1,006,002	4,144,513	546,547	5,697,062
Gwerth net ar 31^{ain} Gorffennaf 2021	274,208	106,311	-	380,519
Gwerth net ar 31 ^{ain} Gorffennaf 2020	401,205	207,481	1,852	610,538

Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn nad yw gwerth y farchnad ar gyfer yr asedau sefydlog yn wahanol iawn i'w gwerth llyfr.

** Mae offer cyfrifiadurol yn cynnwys meddalwedd anniriaethol gyda gwerth net o £70,546 (2020 : £142,828)

13 Dadansoddiad o ymrwymadau cyfalaf

	Grŵp ac elusen	
	2021	2020
	£	£
Wedi'i contractio ond heb ei ddarparu	106,774	7,440
Wedi'i awdurdodi ond heb ei contractio eto	-	-
	<u>106,774</u>	<u>7,440</u>

14 Buddsoddiadau asedau sefydlog

	Buddsoddiadau a ddyfynnir	Buddsoddiadau heb eu dyfynnu	Cyfanswm
	£	£	£
Yn cael eu dal gan y grŵp			
Ar 1 ^{af} Awst 2020	4,300,291	-	4,300,291
Ychwanegiadau ar bris cost	109,418	-	109,418
Gwarediadau am eu gwerth marchnad agoriadol neu gost os cawsant eu prynu yn ystod y flwyddyn	(4,611)	-	(4,611)
Cynnydd net mewn arian parod a ddelir a setliadau sy'n weddill	26	-	26
Enillion net ar ailbrisiu i werth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn	678,262	-	678,262
31^{ain} Gorffennaf 2021	5,083,386	-	5,083,386
Yn cael eu dal gan yr elusen			
1 ^{af} Awst 2020	4,300,291	1	4,300,292
Ychwanegiadau ar gost	109,418	-	109,418
Gwarediadau am eu gwerth marchnad agoriadol neu gost os cawsant eu prynu yn ystod y flwyddyn	(4,611)	-	(4,611)
Cynnydd net mewn arian parod a ddelir a setliadau sy'n weddill	26	-	26
Enillion net ar ailbrisiu i werth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn	678,262	-	678,262
31^{ain} Gorffennaf 2021	5,083,386	1	5,083,387

Mae buddsoddiadau a ddyfynnir yn cael eu hailbrisiu a'u datgan ar werth y farchnad ar 31^{ain} Gorffennaf 2021.

Mae buddsoddiadau sydd heb eu rhestru wedi'i nodi ar eu pris gwreiddiol. Mae QAA yn dal un cyfranddaliad gwerth £1 (100%) yn *QAA Enterprises Limited*, is-gwmni masnachu ym mherchnogaeth Iwyr QAA, a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr rhif. 07588108, gyda'r brif swyddfa yn Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB.

14 Buddsoddiadau ar ffurf asedau sefydlog (parhad)

Mae buddsoddiadau a ddyfynnir yn cael eu cynnwys yn ôl gwerth y farchnad ac yn cael eu dal fel a ganlyn:

	Grŵp ac elusen ar 31 ^{ain} Gorffennaf 2021		Grŵp ac elusen ar 31 ^{ain} Gorffennaf 2020	
	Cost £	Gwerth y farchnad £	Cost £	Gwerth y farchnad £
Wedi'i restru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig				
- yn y DU	4,588,154	5,083,349	4,483,544	4,300,281
- y tu allan i'r DU				
Arian parod a setliadau yn yr arfaeth a ddelir fel rhan o'r portffolio buddsoddi	36	36	10	10
	4,588,190	5,083,385	4,483,554	4,300,291

15 Dyledwyr

	Grŵp		Elusen	
	2021 £	2020 £	2021 £	2020 £
Dyledwyr masnachol	1,488,919	462,782	1,482,919	462,782
Mân ddyledwyr	2,005	9,426	2,005	9,426
Rhagdaliadau	300,151	206,028	300,151	206,028
Incwm cronedig	87,670	42,850	87,670	42,850
Ymgymeriad atodol		-	60,773	57,364
	1,878,745	721,086	1,933,518	778,450

Nodir dyledwyr masnachol ar ôl darparu ar gyfer dyledion amheus o £72,515 (2020: £97,646).

16 Credydwyr: symiau sydd i'w talu o fewn un flwyddyn

	Grŵp		Elusen	
	2021	2020	2021	2020
	£	£	£	£
Credydwyr masnachol	147,546	205,766	147,546	205,766
Trethiant a nawdd cymdeithasol	150,978	150,898	150,978	150,898
Cyfraniadau pensiwn	103,713	90,899	103,713	90,899
Credydwyr eraill	25,300	33,031	25,300	31,411
Croniadau	669,246	634,091	668,346	633,191
Incwm gohiriedig	4,292,548	2,422,660	4,292,548	2,422,660
	5,389,331	3,537,345	5,388,431	3,534,825
Roedd y symudiad mewn incwm gohiriedig fel a ganlyn:				
Ar ddechrau'r flwyddyn	2,422,660	3,520,715	2,422,660	3,520,715
Incwm rhyddhau wedi'i ohirio mewn blynyddoedd blaenorol	(2,398,870)	(3,422,174)	(2,398,870)	(3,422,174)
Incwm gohirio a dderbyniwyd yn y flwyddyn gyfredol	4,268,758	2,324,119	4,268,758	2,324,119
Ar ddiwedd y flwyddyn	4,292,548	2,422,660	4,292,548	2,422,660

Mae incwm gohiriedig yn ymwneud ag ymrwymadau cytundebol na fyddant yn cael eu cyflawni tan y flwyddyn nesaf. Felly nid yw'n briodol cydnabod yr incwm ar hyn o bryd.

17 Trefniadau prydles gweithredol

Roedd cyfanswm y taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol o dan brydles gweithredol na ellir eu canslo fel a ganlyn:

	Grŵp ac elusen	
	2021	2020
	£	£
Tir ac adeiladau		
O fewn un flwyddyn	273,795	272,317
Rhwng dwy a phum mlynedd	355,304	594,692
Ar ôl pum mlynedd	-	-
Arall		
O fewn un flwyddyn	-	-
	629,099	867,009

18 Offerynnau ariannol

	Grŵp		Elusen	
	2021	2020	2021	2020
	£	£	£	£
Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i leihau	5,823,930	3,803,675	5,822,655	3,802,760
Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i leihau	(945,504)	(963,788)	(944,904)	(961,268)

Mae asedau ariannol a fesurir ar gost wedi'i leihau yn sgil dibrisiant yn cynnwys arian parod, dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill, incwm cronedig a symiau sy'n ddyledus o is-yngymeriadau.

Mae ymrwymadau ariannol a fesurir ar gost wedi'i leihau yn sgil dibrisiant yn cynnwys credydwyr masnachol a chredydwyr eraill, cyfraniadau pensiwn sy'n ddyledus a chroniadau.

19 Trafodion partiön cysylltiedig

Oherwydd natur gweithrediadau QAA a chyfansoddiad Bwrdd Cyfarwyddwyr QAA, cynhelir trafodion gyda sefydliadau y gallai fod gan aelod o'r Bwrdd fuddiant ynddynt. Cynhelir yr holl drafodion sy'n ymwneud â sefydliadau y gallai fod gan aelod o'r Bwrdd fuddiant ynddynt hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol a gweithdrefnau caffael arferol QAA. Ni nodwyd unrhyw drafodion y dylid eu datgelu o dan *Safon Adrodd Ariannol 8: Trafodion Partiön Cysylltiedig*

Y balans sy'n ddyledus i'r elusen o'r is-gwmni sy'n eiddo llwyr i QAA, sef *QAA Enterprises Limited*, yw £60,525 (2020: £57,364) fel y dangosir yn y nodyn dyledwyr ar dudalen 52.

Mae QAA yn aelod o Bartneriaeth Fframwaith Credyd a Chymwysterau'r Alban, cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yn yr Alban rhif SC311573.

20 Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau

Mae darpariaethau wedi eu gwneud ar gyfer y canlynol:

Tâl gwyliau

Mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol i fuddion aelodau staff tymor byr gael eu codi ar y cyfrif elw a cholled wrth i'r gwasanaeth gan y gweithwyr hynny gael ei dderbyn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y tâl gwyliau a enillwyd ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn.

Y symudiad yn y darpariaethau yn ystod y flwyddyn yw:

	Tâl gwyliau £	Cyfanswm £
Ar 1 ^{af} Awst 2020	142,277	142,277
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	13,414	13,414
Defnyddiwyd yn y flwyddyn		
Ar 31^{ain} Gorffennaf 2021	155,691	155,691

21 Darpariaeth rhwymedigaeth pensiwn

Cyfanswm y costau pensiwn a godwyd ar y SOFA yw:

	Grŵp ac elusen	
	2021	2020
	£	£
Cyfraniadau gan y cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn	739,390	682,285
Cyfraniadau diffyg sy'n daladwy yn y flwyddyn (wedi'u cynnwys yng ngyfraniad y cyflogwr uchod)	(59,723)	(48,395)
Newid mewn cyfraniadau diffyg disgwylidig yn y dyfodol	134,886	(1,279,098)
	<hr/>	<hr/>
Cyfanswm costau pensiwn a godwyd ar y SOFA	814,553	(645,208)
	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

Y symudiad yn y ddarpariaeth yw:

	Grŵp ac elusen	
	2021	2020
	£	£
Ar 1 ^{af} Awst	1,201,354	2,468,613
Wedi'i godi ar SOFA - cyfraniadau diffyg yn daladwy yn ystod y flwyddyn	(59,723)	(48,395)
Codwyd / (credyd) i'r SOFA - newid mewn cyfraniadau diffyg disgwylidig yn y dyfodol	134,886	(1,279,098)
Dad-ddirwyn y disgownt	31,115	60,234
Ar ddiwedd y flwyddyn	<hr/> 1,307,632 <hr/>	<hr/> 1,201,354 <hr/>

22 Dadansoddiad o arian elusennol

Dadansoddiad o symudiadau mewn arian anghyfyngedig

	Arian ar 1^{af} Awst 2020	Adnoddau sy'n dod i mewn	Adnoddau a wariwyd	Trosglwyd diadau	Enillion a cholledion	Arian ar 31^{ain} Gorffenna f 2020
	£	£	£	£	£	£
Arian dynodedig:						
Arloesedd a datblygiad	24,694			500,000		524,694
Adfer safleoedd	359,000			100,000		459,000
Ailstrwythuro	23,980			(23,980)		-
Cyfanswm arian dynodedig	407,674			576,020		983,694
Cronfa gyffredinol	3,631,799	8,299,644	(8,282,505)	(576,020)	678,889	3,751,807
Cyfanswm arian anghyfyngedig	4,039,473	8,299,644	(8,282,505)	-	678,889	4,735,501

	Arian ar 1 ^{af} Awst 2020	Adnoddau sy'n dod i mewn	Adnoddau a wariwyd	Trosglwydd- iadau	Enillion a cholledion	Arian ar 31 ^{ain} Gorffennaf 2020
	£	£	£	£	£	£
Arian dynodedig:						
Arloesedd a datblygu	58,000	-	(33,306)	-	-	24,694
Adfer safleoedd	359,000	-	-	-	-	359,000
Ailstrwythuro	323,000	-	(299,020)	-	-	23,980
Cyfanswm arian dynodedig	740,000	-	(332,326)	-	-	407,674
Cronfa gyffredinol	2,558,178	9,227,576	(7,816,735)	-	(337,220)	3,631,799
Cyfanswm arian anghyfyngedig	3,298,178	9,227,576	(8,149,061)	-	(337,220)	4,039,473

22 Dadansoddiad o arian elusennol (parhad)

Pwrpas y gronfa ddynodedig ar gyfer *Arloesedd a datblygu* yw: 'arloesi mewn cynhyrchion a gwasanaethau er budd hirdymor addysg uwch y DU'.

Pwrpas y gronfa ddynodedig ar gyfer *Adfer safleoedd* yw ariannu'r gost o adfer ein hadeiladau yng Nghaerloyw a Glasgow i'w cyflwr gwreiddiol ar ddiwedd cyfnodau eu prydles. Daw prydles swyddfeydd Caerloyw i ben ar 30^{ain} Mehefin 2023 a daw prydles swyddfeydd Glasgow i ben ar 1^{af} Mawrth 2025.

Pwrpas y gronfa ddynodedig ar gyfer *Ailstrwythuro* oedd ariannu gweddill y costau a oedd, ac a fydd, yn codi wrth gwblhau ailstrwythuro'r busnes yn 2020-21. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau a throsglwyddwyd gweddill yr arian wrth gefn yn ôl i'r gronfa gyffredinol yn 2020-21.

Dadansoddiad o asedau net y grŵp rhwng cronfeydd

	Cronfa gyffredinol £	Arian dynodedig £	Cyfanswm 2021 £
Asedau sefydlog diriaethol	380,519	-	380,519
Buddsoddiadau ar ffurf asedau sefydlog	4,624,386	459,000	5,083,386
Arian yn y banc ac wrth law	3,720,511	524,694	4,245,205
Rhwymedigaethau cyfredol net eraill	(3,510,286)	-	(3,510,286)
Darpariaethau	(1,463,323)	-	(1,463,323)
Cyfanswm yr asedau net 31^{ain} Gorffennaf 2021	3,751,807	983,694	4,735,501

	Cronfa gyffredinol £	Arian dynodedig £	Cyfanswm 2020 £
Asedau sefydlog diriaethol	610,538	-	610,538
Buddsoddiadau ar ffurf asedau sefydlog	3,941,291	359,000	4,300,291
Arian yn y banc ac mewn llaw	3,263,840	24,694	3,288,534
Rhwymedigaethau cyfredol net eraill	(2,816,259)	-	(2,816,259)
Darpariaethau	(1,343,631)	-	(1,343,631)
Cyfanswm yr asedau net 31^{ain} Gorffennaf 2021	3,655,779	383,694	4,039,473

23 Pensiynau (cynlluniau buddion diffiniedig)

Mae QAA yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn buddion diffiniedig. Roedd cyfraniadau pensiwn oedd yn daladwy gan y cyflogwr fel a ganlyn:

	Grŵp ac elusen	
	2021	2020
	£	£
Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)	605,309	559,971
Trefniadau pensiwn ar gyfer Prifysgol Llundain (SAUL)	134,081	122,314
	<u>739,390</u>	<u>682,285</u>
Cyfraniadau cyflogwr sy'n weddill ar ddyddiad y fantolen (wedi'u cynnwys uchod)	<u>99,388</u>	<u>90,899</u>

Yn ogystal â'r adran ar Gyflogau Terfynol o fewn USS ar gyfer aelodau presennol, bydd cyflogeion sy'n ymuno â'r Cynllun ar ôl 30^{ain} Medi 2011 yn ymuno â'r adran Buddiannau Gyrfa wedi'u Hailbrizio (yn amodol ar rai rheolau trosiannol). O 1^{af} Ebrill 2016 symudwyd holl aelodau'r USS i'r adran Adeiladu Incwm at Ymddeol.

Yn yr un modd, bydd gweithwyr sy'n ymuno â SAUL ar ôl 30^{ain} Mehefin 2012 yn ymuno ag adran Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrizio (CARE) y cynllun hwnnw (yn amodol ar rai rheolau trosiannol).

Ar 1^{af} Ebrill 2016 symudwyd holl aelodau'r cynllun Cyflog Terfynol i'r adran Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrizio

Mae'r cyfraddau cyfrannu fel canran o'r cyflog pensiynadwy fel a ganlyn:

		Cyflogwr	Cyflogai
USS	Adran Adeiladu Incwm at Ymddeol	21.10%	9.60%
SAUL	Adran Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrizio	<u>16.00%</u>	<u>6.00%</u>

a Cynllun Pensiwn y Prifysgolion

Mae'r prisiad actiwaraid cyflawn diweddaraf sydd ar gael o'r cynllun Adeiladu Incwm at Ymddeol ar 31^{ain} Mawrth 2018 (y dyddiad prisio), a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol. Mae prisiad ar 31^{ain} Mawrth 2021 ar y gweill, ond nid yw wedi'i gwblhau eto.

Gan na all y sefydliad nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun Adeiladu Incwm at Ymddeol USS (budd diffiniedig), mae'r datgeliadau canlynol yn adlewyrchu'r rhai sy'n berthnasol i'r asedau a'r rhwymedigaethau hynny yn eu cyfanrwydd.

23 Pensiynau (cynlluniau buddion diffiniedig) (parhad)

Prisiad 2018 oedd y pumed prisiad ar gyfer y cynllun o dan y drefn ariannu cynllun-benodol a gyflwynwyd gan *Ddeddf Pensiynau 2004*, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau fabwysiadu amcan ariannu statudol - i fod ag asedau digonol a phriodol i ddiwallu eu darpariaethau technegol. Ar y dyddiad prisio, gwerth asedau'r cynllun oedd £63.7 biliwn a gwerth darpariaethau technegol y cynllun oedd £67.3 biliwn, gan ddangos diffyg o £3.6 biliwn a chymhareb ariannu o 95%.

Disgrifir y tybiaethau ariannol allweddol a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2018 isod. Rhoddir mwy o fanylion yn y Datganiad o Egwyddorion Ariannu.

Cynnydd mewn pensiwn (CPI)	Cyfraddau sy'n ddibynnol ar gyfnod yn unol â'r gwahaniaeth rhwng y cromliniau cynnyrch Llog Sefydlog a Mynegrifol, llai 1.3% y flwyddyn
Cyfradd ddisgownt (cyfraddau ymlaen)	Blynyddoedd 1-10: CPI + 0.14% yn gostwng yn llinol i CPI - 0.73% Blynyddoedd 11-20: CPI + 2.52% yn gostwng yn llinol i CPI +1.55% Blynyddoedd 21 +: CPI + 1.55%

Mae'r brif dybiaeth ddemograffig a ddefnyddiwyd yn ymwneud â'r tybiaethau yn ymwneud â marwolaethau. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o brofiad y cynllun a gynhaliwyd fel rhan o brisiad actiwaraid 2018. Mae'r tybiaethau yn ymwneud â marwolaethau a ddefnyddir yn y ffigurau hyn fel a ganlyn:

Tabl gwaelodlin marwolaethau

prisiad 2018

Cyn ymddeol:	71% o AMC00 (hyd 0) ar gyfer dynion a 112% o AFC00 (hyd 0) ar gyfer menywod
Ar ôl ymddeol:	97.6% o SAPS S1NMA 'ysgafn' ar gyfer dynion a 102.7% o RFV00 ar gyfer menywod
Gwelliannau i farwolaethau yn y dyfodol:	CMI_2017 gyda pharamedr llyfnu o 8.5 a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.8% y flwyddyn ar gyfer dynion ac 1.6% y flwyddyn ar gyfer menywod

Y disgwyliadau ar gyfer bywyd ar ymddeoliad yn 65 ar hyn o bryd yw:

	2021	2020
Dynion 65 oed ar hyn o bryd (blynyddoedd)	24.6	24.4
Menywod 65 oed ar hyn o bryd (blynyddoedd)	26.1	25.9
Dynion 45 oed ar hyn o bryd (blynyddoedd)	26.6	26.3
Menywod 45 oed ar hyn o bryd (blynyddoedd)	27.9	27.7

Rhodddwyd cynllun adennill diffyg newydd ar waith fel rhan o brisiad 2018, sy'n gofyn am daliad o 2% o gyflogau rhwng 1^{af} Hydref 2020 a 30^{ain} Medi 2021, ac ar ôl hynny bydd y gyfradd yn cynyddu i 6%. Mae rhwymedigaeth adennill diffyg 2021 yn adlewyrchu'r cynllun hwn. Mae'r ffigurau ar gyfer rhwymedigaethau wedi'u llunio gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

	2021	2020
Cyfradd ddisgownt	0.88%	2.59%
Twf cyflog pensiynadwy	2.00%	4.20%

23 Pensiynau (cynlluniau buddion diffiniedig) (parhad)

b Trefniadau Pensiwn ar gyfer Prifysgol Llundain

Mae QAA yn cymryd rhan yn Nhrefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain (SAUL), sef cynllun buddion diffiniedig yn y Deyrnas Unedig ac a gontractiwyd allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth (cyn Ebrill 2016).

Mae SAUL yn gynllun pensiwn a reolir yn annibynnol ar gyfer staff anacademaidd mewn dros 50 o golegau a sefydliadau sydd â chysylltiadau ag addysg uwch.

Mae buddion pensiwn o fewn cynllun SAUL ar hyn o bryd yn cronni ar sail Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio (CARE).

Nid oes disgwyl i QAA fod yn atebol i SAUL ar gyfer rhwymedigaethau unrhyw gyflogwr arall sy'n cymryd rhan yn y cynllun ar hyn o bryd o dan Reolau SAUL, ond os bydd unrhyw gyflogwr sy'n cyfranogi yn SAUL yn mynd yn fethdalwr, gall swm o unrhyw ddiffyg pensiwn (na ellir ei adennill fel arall) mewn perthynas â'r cyflogwr hwnnw, gael ei wasgaru ar draws y cyflogwyr sy'n cymryd rhan a'i adlewyrchu yn y prisiad actiwaraid nesaf.

Polisi ariannu

Amcan ariannu statudol SAUL yw meddu ar asedau digonol a phriodol i gwrdd â'r costau sy'n wynebu'r Ymddiriedolwr wrth dalu buddion SAUL pan fyddant yn dod yn ddyledus (y 'Darpariaethau Technegol'). Mae'r Ymddiriedolwr yn gwneud tybiaethau sydd, yn eu cyfanrwydd, wedi'u bwriadu i fod yn ddigon darbodus i bensiynau a buddion sydd eisoes yn cael eu talu barhau i gael eu talu, a bod ymrwymadau sy'n codi o hawliau pensiwn cronedig yr aelodau'n cael eu bodloni.

Mae rhagdybiaethau'r Darpariaethau Technegol yn cynnwys digon o hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer y posibilrwydd y gallai'r sefyllfa fod yn waeth na'r disgwyl. Fodd bynnag, nid yw'r dull ariannu a'r rhagdybiaethau yn dileu'n llwyr y risg y gallai'r Darpariaethau Technegol fod yn annigonol i ddarparu buddion yn y dyfodol.

Cynhelir prisiad actiwaraid ffurfiol o SAUL bob tair blynedd gan actiwari annibynnol â chymwysterau proffesiynol. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid diwethaf ar 31^{ain} Mawrth 2020. Cynhelir adolygiadau anffurfiol o sefyllfa SAUL, gan adlewyrchu newidiadau yn amodau'r farchnad, gwybodaeth ynghylch llif arian a chroniadau newydd o fuddion, rhwng prisiadau ffurfiol.

Cytunwyd ar yr egwyddorion cyllido ym mis Mehefin 2021, ac maent i gael eu hadolygu fel rhan o'r broses prasio ffurfiol nesaf yn 2023.

Yn y prisiad ar 31^{ain} Mawrth 2017, roedd SAUL wedi'i gyllido hyd at 94% ar sail ei Ddarpariaethau Technegol. Fodd bynnag, roedd symudiadau'r farchnad yn dilyn y dyddiad prasio yn gadarnhaol, a chytunodd yr Ymddiriedolwr a'r Cyflogwyr i ganiatáu ar gyfer profiad

ôl-brisio hyd at 30^{ain} Ebrill 2021. Gan fod arian dros ben yn SAUL ar gyfer ei Ddarpariaethau Technegol ar y dyddiad hwnnw, nid oedd angen unrhyw gyfraniadau diffyg. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwr a'r Cyflogwyr wedi cytuno y bydd cyfraniadau parhaus y Cyflogwyr yn parhau ar gyfradd rhwng 16% o Gyflogau CARE a 19% o Gyflogau Care o 1^{af} Ebrill 2022, a 21% o Gyflogau CARE o 1^{af} Ionawr 2023.

Polisi cyfrifo

Mae QAA yn Gyflogwr sy'n Cymryd Rhan yn SAUL. Mae'r prisiad actiwaraidd yn berthnasol i SAUL yn ei gyfanrwydd ac nid yw'n nodi gwargedion na diffygion sy'n berthnasol i gyflogwyr unigol. Yn ei gyfanrwydd, gwerth marchnad asedau SAUL ar 31^{ain} Mawrth 2020 oedd £3,612 miliwn, sef 94% o'r rhwymedigaethau. Gwerth marchnad asedau SAUL ar 30^{ain} Ebrill 2021 oedd £4,369 miliwn, sef 109% o'r rhwymedigaethau a amcangyfrir.

Nid yw'n bosibl dynodi cyfran Cyflogwr unigol o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol SAUL. Mae QAA yn cyfrif am eu cyfranogiad yn SAUL fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac mae costau pensiwn yn seiliedig ar y symiau a dalwyd mewn gwirionedd yn unol â pharagraff 28.11 FRS 102.

Er bod diffyg Darpariaethau Technegol ar 31^{ain} Mawrth 2020, gan ganiatáu ar gyfer profiad ôl-brisio hyd at 30^{ain} Ebrill 2021, roedd gan SAUL warged ar gyfer Darpariaethau Technegol. Felly, nid oedd angen unrhyw gyfraniadau diffyg yn dilyn prisiad 2020 ac nid oes unrhyw rwymedigaeth buddion diffiniedig (gwerth presennol unrhyw gyfraniadau diffyg sy'n ddyledus i SAUL) i'w cydnabod gan QAA.

24 Pensiynau (cynllun buddion diffiniedig)

Mae QAA yn cymryd rhan mewn un cynllun pensiwn buddion diffiniedig. Caiff asedau'r cynllun eu dal ar wahân i rai'r elusen mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol. Mae'r tâl cost pensiwn yn cynrychioli cyfraniadau sy'n daladwy gan yr elusen i'r gronfa ac roeddent fel a ganlyn:

	Grŵp ac elusen	
	2020	2020
	£	£
Pensiwn y Bobl	<u>8,651</u>	<u>20,357</u>
Cyfraniadau'r cyflogwr oedd yn ddyledus ar ddyddiad y fantolen	<u>1,622</u>	<u>2,078</u>

25 Cysoni incwm / (gwariant) net â llif arian net o weithgareddau gweithredol

	Grŵp		Elusen	
	2021	2020	2021	2020
	£	£	£	£
Incwm / gwariant net am y flwyddyn	696,028	741,296	693,750	762,945
Addasiadau ar gyfer:				
Tâl dibrisiant	270,472	341,121	270,472	341,121
(Enillion) / Colledion ar fuddsoddiadau	(678,889)	337,220	(678,889)	337,220
Incwm o fuddsoddiadau	(115,098)	(160,814)	(115,098)	(160,814)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn dyledwyr	(1,157,659)	2,011,185	(1,155,068)	2,011,185
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn credydwyr	1,851,686	(1,202,099)	1,853,603	(1,202,099)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau	119,691	(1,798,173)	119,691	(1,798,172)
Arian net a ddarparwyd trwy weithgareddau gweithredol	986,231	269,736	988,461	291,386

26 Dadansoddiad o arian parod a chyfwerth ag arian parod

	Grŵp		Elusen	
	2021	2020	2021	2020
	£	£	£	£
Arian yn y banc ac wrth law - asedau parod	4,245,205	3,288,534	4,189,157	3,230,256
Arian parod yn y banc - buddsoddiadau ar ffurf asedau sefydlog	36	10	36	10
Arian parod yn y banc ac mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn	4,245,241	3,288,544	4,189,193	3,230,266

27 Cysoni dyled net

	Ar 1^{af} Awst 2020	Llif arian	Ar 31^{ain} Gorffennaf 2021
	£	£	£
Arian parod	3,288,534	956,671	4,245,205
Cyferwerth ag arian parod	10	26	36
Cyfanswm	3,288,544	956,697	4,245,241

Geirfa

FRS 102	Y Safon ar gyfer Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon
S2P	Ail Bensiwn y Wladwriaeth
SAUL	Trefniadau Pensiwn ar gyfer Prifysgol Llundain
SORP Elusennau	Cyfrifo ac Adroddiadau gan Elusennau: Datganiad o Arferion Cymeradwy sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon ar gyfer Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (daeth i rym 1 ^{af} Ionawr 2015)
SOFA	Datganiad o weithgarwch ariannol
USS	Cynllun Pensiwn y Prifysgolion

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2021
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhif Elusen Gofrestredig 1062746 a SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk